[28] Janet Davies: Hoffwn godi rhywbeth ar fewnfuddsoddi a nifer y swyddi a gafodd eu creu a'u diogelu. Mr Willott, yn amlwg yn y blynyddoedd cynharaf—1996-97 a 1997-98—nid oeddech wedi newid eich methodoleg. Fodd bynnag, yr oedd yn achos chwilfrydedd imi pan edrychais ar y tabl i weld bod gennych darged o 10,000 o swyddi yn 1996-97 a'ch bod wedi cyflawni 15,118. Wedi ichi fynd y tu hwnt i'r targed y flwyddyn honno, gostyngwyd y targed gennych ar gyfer y flwyddyn ganlynol; aethoch y tu hwnt iddo eto ac yna ei ostwng eto. Yr oeddwn yn meddwl tybed pam eich bod yn gostwng y targedau pan aethoch, mewn gwirionedd, y tu hwnt i'ch targedau mewn un flwyddyn.

Mr Willott: Gallaf roi rhan helaeth o'r esboniad ichi. Yn 1996-97 sgoriwyd prosiect LG Semicon o dan yr hen system. Felly, sgoriwyd nifer llawn y swyddi a ddeilliodd o brosiect LG Semicon yn y flwyddyn honno. Dyna pam bod nifer y swyddi a grewyd—15,000—mor uchel o'i gymharu â'r targed o 10,000 a osodwyd. Pan osodwyd y targed, wrth gwrs, ni allech o anghenraid ragweld eich bod yn mynd i ddenu prosiect mor fawr â hynny. Mae'r newid o 1997-98 i 1998-99 yn adlewyrchu, fel y dywedodd Steven Phillips yn awr, y newid mewn methodoleg. Mae hynny yn golygu, yn hytrach na sgorio'r swyddi ar adeg pan gyhoeddir y ddél, sef mwy neu lai beth yw sail y biwro Investment Britain—a dyna sut y maent yn cynhyrchu ffigurau cyffredin ledled y Deyrnas Unedig—yr

have moved to score the jobs at the time when the company actually occupies the factory with intent to start up. Therefore, there was quite a timing shift. The total number of jobs over a period of years will not be any different, but the targets and the rate of build up of them will be different. That is why we have that pattern in those three years.

[29] Janet Davies: I can think of one or two other questions but I think perhaps that I will leave them until another time.

Mr Willott: I can elaborate. If you want to send us any questions, I am very happy to respond in writing to give you a fuller explanation.

[30] Janet Davies: Thank you. I would like to move on now to the next section, which concerns controlling the cost of the merger and securing financial savings. I will start with a question to Mr Willott. On this issue of the financial savings flowing from the merger, to what extent has the level of vacancies that we have been discussing been helpful to the agency in securing the savings? Would a full establishment reduce those reported savings?

Mr Willott: No. Can I make two points? First, in the run up to the actual merger, we deliberately declined to fill posts as they became vacant in order to avoid making an unnecessary number of people compulsorily redundant. So in the approach to the merger we were deliberately running with no recruitment and, therefore, increasing vacancies. The figure of savings of £2.25 million is predicated on the full staff numbers being in place, so the fact that we were actually below complement during the period means that the actual management running costs were lower, and the saving was actually greater than £2.25 million.

[31] Janet Davies: What would be your target for savings for the new financial year—this financial year?

ydym wedi symud i sgorio swyddi ar yr adeg pan fydd y cwmni yn cymryd meddiant o'r ffatri gyda'r bwriad o ddechrau busnes. Felly, yr oedd tipyn o symudiad o ran amseriad. Ni fydd cyfanswm nifer y swyddi dros gyfnod o flynyddoedd yn wahanol o gwbl, ond bydd y targedau a chyflymder eu datblygiad yn wahanol. Dyna pam bod gennym y patrwm hwnnw yn y tair blynedd honno.

[29] Janet Davies: Gallaf feddwl am un neu ddau o gwestiynau eraill ond credaf efallai y gadawaf hwy tan adeg arall.

Mr Willott: Gallaf ymhelaethu. Os ydych am anfon unrhyw gwestiynau atom, yr wyf yn fwy na pharod i ymateb yn ysgrifenedig er mwyn rhoi esboniad llawnach ichi.

[30] Janet Davies: Diolch. Hoffwn symud ymlaen yn awr i'r adran nesaf, sydd yn ymwneud â rheoli cost yr uno a sicrhau arbedion ariannol. Dechreuaf gyda chwestiwn i Mr Willott. O ran mater yr arbedion ariannol yn llifo o'r uno, i ba raddau y mae lefel y swyddi gwag yr ydym wedi bod yn eu trafod wedi helpu'r awdurdod i sicrhau'r arbedion hyn? A fyddai sefydliad llawn yn gostwng yr arbedion hynny a adroddwyd?

Mr Willott: Na fyddai. A allaf wneud dau bwynt? Yn gyntaf, yn y cyfnod yn arwain at yr uno, gwrthodasom lenwi swyddi wrth iddynt ddod yn wag yn fwriadol er mwyn osgoi diswyddo nifer o bobl yn orfodol. Felly wrth nesáu at yr uno yr oeddem yn fwriadol yn rhedeg heb recriwtio ac, felly, gyda swyddi gwag cynyddol. Rhagfynegwyd y ffigur o £2.25 miliwn o arbedion ar sail y nifer llawn o staff mewn swyddi, felly mae'r ffaith ein bod yn is na'r nifer llawn yn ystod y cyfnod yn golygu bod y costau rhedeg o ran rheoli yn is, ac yr oedd yr arbedion yn fwy na £2.25 miliwn mewn gwirionedd.

[31] Janet Davies: Beth fyddai eich targed ar gyfer arbedion ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd—y flwyddyn ariannol hon?

Mr Willott: Well, that is a difficult question to answer because the £2.25 million is there permanently. That is the new baseline from which we are starting. Therefore, year after year, compared with the organisations before, it is there. The savings for future years then depend upon the volume of work and the nature of the work that we are required to do and the targets that are set by the Assembly.

[32] Janet Davies: Alun Cairns, would you like to continue with this?

[33] Alun Cairns: Mr Shortridge, can I ask you first, on what basis do Assembly officials agree the financial savings targets with the agency?

Mr Shortridge: I think that I need to be clear what your question is addressing. Is it addressing the financial savings target which we gave the three bodies for the merger or are you talking about how we set the running costs for the agency annually?

[34] Alun Cairns: Well, both actually, but I wanted to cover the merger at this point. I will come on to the annual costs thereafter.

Mr Shortridge: In the case of the merger, where we indicated to the WDA that what we were looking for were savings of up to £3 million per annum in running costs, that was based upon discussions that we had within the office on what we regarded, based on the information that we had, would be a challenging but realistic target for the bodies to achieve. It was not possible for us, in advance of all the detailed work which Brian Willott and his colleagues did, to accurately assess for ourselves what the outcome should be, so we needed to have a figure that was, as I say, realistic and challenging. That is the figure that we alighted upon—up to £3 million.

[35] Alun Cairns: Accepting that each of the organisations were wholly unique, what comparisons could be drawn with

Mr Willott: Wel, mae hwnnw'n gwestiwn anodd i'w ateb gan fod y £2.25 miliwn yno yn barhaol. Dyna'r waelodlin newydd yr ydym yn dechrau ohoni. Felly, flwyddyn ar ôl blwyddyn, o gymharu â'r sefydliadau blaenorol, mae yno. Mae'r arbedion ar gyfer blynyddoedd sydd i ddod yna'n dibynnu ar swm y gwaith a natur y gwaith y gofynnir inni ei wneud a'r targedau a osodir gan y Cynulliad.

[32] Janet Davies: Alun Cairns, a hoffech barhau gyda hyn?

[33] Alun Cairns: Mr Shortridge, a allaf ofyn ichi yn gyntaf, ar ba sail y mae swyddogion y Cynulliad yn cytuno ar y targedau arbedion ariannol gyda'r awdurdod?

Mr Shortridge: Credaf bod angen imi fod yn glir ynglyn â'r hyn y mae eich cwestiwn yn rhoi sylw iddo. A yw'n rhoi sylw i'r targed arbedion ariannol a roddasom i'r tri chorff ar gyfer yr uno neu a ydych yn sôn am sut yr ydym yn pennu'r costau rhedeg ar gyfer yr awdurdod yn flynyddol?

[34] Alun Cairns: Wel, y ddau a dweud y gwir, ond yr oeddwn am gwmpasu'r uno ar y pwynt hwn. Dof at y costau blynyddol wedi hynny.

Mr Shortridge: Yn achos yr uno, ble y nodasom i ADC mai'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano oedd arbedion o hyd at £3 miliwn y flwyddyn mewn costau rhedeg, yr oedd hynny'n seiliedig ar drafodaethau a gawsom gyda'r swyddfa ar yr hyn a ystyriasom a fyddai'n darged heriol ond realistig i'r cyrff ei gyflawni, yn seiliedig ar yr wybodaeth a oedd gennym. Nid oedd yn bosibl inni, cyn y gwaith manwl a wnaethpwyd gan Brian Willott a'i gydweithwyr, asesu'n gywir drosom ein hunain beth ddylai'r canlyniad fod, felly yr oedd angen inni gael ffigur a oedd, fel y dywedaf, yn realistig ac yn heriol. Dyna'r ffigur y penderfynasom arno—hyd at £3 miliwn.

[35] Alun Cairns: Gan dderbyn bod pob un o'r sefydliadau yn hollol unigryw, pa gymariaethau y gellid eu tynnu gydag

mergers in the private sector in terms of cost savings at managerial level? What comparisons were drawn and were they reflected upon in the merger of these organisations?

Mr Shortridge: We did not make a comparison of that nature.

[36] Alun Cairns: Would there have been any benefit in looking at the potential managerial savings costs in the private sector that may well reflect these organisations?

Mr Shortridge: There may have been, but I think that what we were relying on was our own knowledge and intelligence of the three agencies concerned, bearing in mind that officials within what was then the Welsh Office had a very close relationship with these three organisations. Therefore, we did know how the existing running costs were being set and being allocated. We considered that, on the basis of that information, we were able to come up with, as I say, a challenging and realistic target. I think that the work that Sir John Bourn has done in evaluating the outcome demonstrates that we did not get it far wrong.

[37] Alun Cairns: Mr Shortridge, how did officials ensure that the agency achieved these savings and did so without compromising its performance?

Mr Shortridge: In terms of how and whether it achieved the savings, that is done through audit and this particular external audit has given me assurance on that. In terms of how we monitor the way in which the agency does its business and seeks to get best value for money from the resources that it has, the officials in Mr Phillips's sponsor division have very regular meetings with the staff concerned in the agency. By regular, I mean at least monthly formal meetings and then regular discussions between those meetings. Therefore, we keep very close to the way in which the agency is managing its business.

[38] Alun Cairns: Mr Willott, paragraph

uniadau yn y sector preifat o ran arbedion cost ar lefel rheoli? Pa gymariaethau a dynnwyd ac a fyfyrwyd arnynt wrth uno'r sefydliadau hyn?

Mr Shortridge: Ni wnaethom gymariaethau o'r natur honno.

[36] Alun Cairns: A fyddai unrhyw fudd wedi deillio o edrych ar y costau arbedion rheoli posibl yn y sector preifat a allai adlewyrchu'r sefydliadau hyn?

Mr Shortridge: Mae hynny'n bosibl, ond credaf mai'r hyn yr oeddem yn dibynnu arno oedd ein gwybodaeth a'n deallusrwydd ein hunain o'r tri awdurdod dan sylw, gan gofio bod gan y swyddogion o fewn y Swyddfa Gymreig bryd hynny berthynas agos gyda'r tri sefydliad hyn. Felly, yr oeddem yn gwybod sut yr oedd y costau rhedeg presennol yn cael eu pennu a'u dyrannu. Ystyriasom, ar sail yr wybodaeth honno, y gallem bennu targed a oedd, fel y dywedais, yn heriol ac yn realistig. Credaf fod y gwaith y mae Syr John Bourn wedi'i wneud o ran gwerthuso'r canlyniad yn dangos nad aethom ymhell o'n lle.

[37] Alun Cairns: Mr Shortridge, sut y gwnaeth swyddogion sicrhau bod yr awdurdod yn cyflawni'r arbedion hyn a'i fod yn gwneud hynny heb gyfaddawdu ar ei berfformiad?

Mr Shortridge: O ran sut a pha un ai a gyflawnodd yr arbedion, gwneir hynny drwy archwiliad ac mae'r archwiliad allanol arbennig hwn wedi rhoi sicrwydd imi yn hynny o beth. O ran sut yr ydym yn monitro'r ffordd y mae'r awdurdod yn cynnal ei fusnes ac yn ceisio cael y gwerth gorau am arian o'r adnoddau sydd ganddo, mae'r swyddogion o fewn is-adran noddi Mr Phillips yn cael cyfarfodydd rheolaidd iawn gyda'r staff dan sylw yn yr awdurdod. Mae rheolaidd yn golygu cyfarfodydd ffurfiol misol o leiaf ac yna drafodaethau rheolaidd rhwng y cyfarfodydd hynny. Felly, yr ydym cadw'n glôs iawn at y ffordd y mae'r awdurdod yn rheoli ei fusnes.

[38] Alun Cairns: Mr Willott, mae

2.8 of the report describes how the agency secured £1.5 million in capital receipts by vacating freehold property. Why did the agency select this option, rather than one that may have contributed to increased running cost savings?

Mr Willott: Can I start by making one comment that bears on this and on the previous questions to Mr Shortridge? You should not underestimate the role of the board and, in particular, the effect of having some fairly hard-nosed businessmen on the boards of the organisations. I can assure you that they are fairly tough in looking at savings and economies when they are encouraged to do so. In this particular case, for example, we looked pretty hard at central services and the central finance services for the combined organisations came down from 101 staff to 44. Therefore, you can be quite sure that we looked very hard at getting a lean and efficient organisation. The question that you addressed to me, I am sorry—

[39] Alun Cairns: It relates to the freehold property.

Mr Willott: That was a matter of common sense to be honest, because we only wanted one central headquarters building. We were interested in trying to rationalise the offices in order to have maximum synergy between staff and economy. There was no way that we could get all the headquarters staff that we needed to have in Cardiff into the Custom House building. We could get them all into Principality House, so we squeezed them all in there. We had a building and therefore it was sensible to sell it and realise savings to the public purse. That did not accrue to our running costs but it generated £1.5 million of savings for the public purse. It was a sensible thing to do.

[40] Alun Cairns: What scope is there for ensuring that the rules and regulations under which the agency operates offer sensible incentives to secure the most cost-efficient use of the agency's resources and

paragraff 2.8 o'r adroddiad yn disgrifio sut y sicrhodd yr awdurdod £1.5 miliwn mewn derbynebion cyfalaf drwy ymadael ag eiddo rhydd-ddaliad. Pam y dewisodd yr awdurdod yr opsiwn hwn, yn hytrach nag un a allai fod wedi cyfrannu tuag at gynyddu arbedion costau rhedeg?

Mr Willott: A allaf ddechrau drwy wneud un sylw sydd yn gysylltiedig â hyn ac â'r cwestiynau blaenorol i Mr Shortridge? Ni ddylech danbrizio rôl y bwrdd ac, yn arbennig, yr effaith o gael rhai dynion busnes eithaf digyfaddawd ar fyrddau'r sefydliadau. Gallaf eich sicrhau eu bod yn eithaf caled o ran edrych ar arbedion a chynilion pan gânt eu hannog i wneud hynny. Yn yr achos arbennig hwn, er enghraifft, edrychasom yn eithaf manwl ar wasanaethau canolog a daeth y gwasanaethau cyllid canolog ar gyfer y sefydliadau cyfun i lawr o 101 o staff i 44. Felly, gallwch fod yn eithaf sicr ein bod wedi edrych yn fanwl ar gael sefydliad darbodus ac effeithlon. Y cwestiwn a ofynnasoch imi, mae'n ddrwg gennyf—

[39] Alun Cairns: Mae'n ymwneud â'r eiddo rhydd-ddaliad.

Mr Willott: Mater o synnwyr cyffredin oedd hynny a bod yn onest, gan mai dim ond un adeilad pencadlys canolog yr oedd ei angen arnom. Yr oedd gennym ddiddordeb mewn ceisio rhesymoli'r swyddfeydd er mwyn cael cymaint o synergedd â phosibl rhwng staff a chynildeb. Nid oedd yn bosibl o gwbl cynnwys yr holl staff pencadlys yr oedd eu hangen arnom yng Nghaerdydd yn adeilad Custom House. Gallem eu cynnwys i gyd o fewn Ty Principality, felly cawsant oll eu gwasgu i mewn i'r fan honno. Yr oedd gennym adeilad ac felly yr oedd yn synhwyrol ei werthu a chreu arbedion i bwrs y wlad. Ni chronnodd hynny i'n costau rhedeg ond cynhyrchodd arbedion o £1.5 miliwn i bwrs y wlad. Yr oedd yn beth synhwyrol i'w wneud.

[40] Alun Cairns: Faint o gyfle sydd i sicrhau bod y rheolau a'r rheoliadau y mae'r awdurdod yn gweithredu oddi tanynt yn cynnig cymhelliannau synhwyrol i sicrhau'r defnydd mwyaf cost

secure financial savings?

Mr Willott: There are slight constraints in the public sector in the sense that you have the separation between running costs and capital costs. However, I think that, in the main, we just believe in running a lean ship and we discuss with the Assembly what we should do and what our budget should be in order to achieve that. It looks fairly carefully at what we are proposing and it either agrees with that or it does not.

Mr Beaumont: May I add to that? It is absolutely true that the capital receipts from the sale of these properties were credited to the agency's income line and did not bestow any direct benefits on the management running costs budget. However, we did persuade colleagues in the then Welsh Office of what actually was the most sensible thing to do for the public purse. As Sir John mentions in paragraph 2.12 of the report, we were granted an additional £100,000 in order to facilitate the move of the former Land Authority staff into the then headquarters building of the agency.

[41] Alun Cairns: Mr Shortridge, do you have anything to add in relation to that point?

Mr Shortridge: I think that the point is one of asking if there is more that could be done to incentivise the agency to operate more efficiently and to generate receipts. I am always looking for incentive systems because it then becomes self-delivering. However, it is actually quite difficult to see what more could be done. As Brian Willott says, we have a responsibility in the public sector as accounting officers to do all that we can to ensure that we are getting best value for money from the inputs that are going in.

effeithiol o adnoddau'r awdurdod a sicrhau arbedion ariannol?

Mr Willott: Mae rhywfaint o gyfyngiadau o ran y sector cyhoeddus yn yr ystyr bod gennych y gwahaniad rhwng costau rhedeg a chostau cyfalaf. Fodd bynnag, credaf, ar y cyfan, ein bod ond yn credu mewn rhedeg sefydliad darbodus a thrafod yr hyn y dylem ei wneud gyda'r Cynulliad a faint ddylai ein cyllideb fod er mwyn cyflawni hynny. Mae'n edrych yn eithaf gofalus ar yr hyn yr ydym yn ei gynnig a bydd naill ai'n cytuno â hynny neu'n anghytuno.

Mr Beaumont: A allaf ychwanegu at hynny? Mae'n hollol wir i'r derbynebion cyfalaf o werthu'r eiddo hyn gael eu credydu i linell incwm yr awdurdod ac na ddaeth ag unrhyw fanteision uniongyrchol i'r gyllideb costau rhedeg o ran rheoli. Fodd bynnag, llwyddasom i ddarbwylllo cydweithwyr yn y Swyddfa Gymreig bryd hynny ynghylch y peth mwyaf synhwyrol i'w wneud er budd pwrs y wlad. Fel y crybwyllir gan Syr John ym mharagraff 2.12 o'r adroddiad, rhoddyd £100,000 yn ychwanegol inni er mwyn hwyluso'r broses o symud staff y cyn Awdurdod Tir i adeilad pencadlys yr awdurdod bryd hynny.

[41] Alun Cairns: Mr Shortridge, a oes gennych unrhyw beth i'w ychwanegu mewn cysylltiad â'r pwynt hwnnw?

Mr Shortridge: Credaf mai'r pwynt yw gofyn a oes mwy y gellid ei wneud i gymell yr awdurdod i weithio'n fwy effeithlon a chynhyrchu derbynebion. Yr wyf bob amser yn edrych am systemau cymhelliant gan fod hynny'n dod yn hunan-gyflawnedig wedyn. Fodd bynnag, mae'n eithaf anodd mewn gwirionedd i weld faint mwy y gellid ei wneud. Fel y dywed Brian Willott, mae gennym gyfrifoldeb yn y sector cyhoeddus fel swyddogion cyfrifo i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am arian o'r mewnbynnau sydd yn mynd i mewn.

The system—I suppose that you could, in a sense, call it the incentive system—that we have is essentially the challenge relationship that exists between the agency, which is coming up, as you would expect, with proposals, and officials in the department who are testing and questioning and coming up with what may actually be off the wall ideas as to how it could achieve these things cheaper. Therefore, that is the system that we have. It is a challenge system. Sometimes, the relationships between Mr Phillips and his colleagues and Mr Willott and his colleagues actually get quite strained, but both sides do that in what we regard as being in the interests of the public good—to have that dynamic in place.

Y system sydd gennym—efallai y gallech, ar un ystyr, ei galw'n system cymhelliant—mewn gwirionedd yw'r berthynas her sydd yn bodoli rhwng yr awdurdod, sydd yn cyflwyno, fel y byddech yn disgwyl, cynigion, a swyddogion yn yr adran sydd yn profi ac yn holi ac yn creu yr hyn a allai fod yn syniadau gwallgof o ran sut y gellir cyflawni'r pethau hyn yn rhatach. Felly, dyna'r system sydd gennym. Mae'n system heriol. Weithiau, mae'r berthynas rhwng Mr Phillips a'i gydweithwyr a Mr Willott a'i gydweithwyr o dan gryn bwysau mewn gwirionedd, ond mae'r ddwy ochr yn gwneud yr hyn sydd yn ein barn ni o fudd i'r cyhoeddd—sef cael y ddynameg honno yn ei lle.

[42] Janet Davies: Brian Gibbons would like to come in with a question.

[42] Janet Davies: Hoffai Brian Gibbons ofyn cwestiwn.

[43] Brian Gibbons: I would like to return to the process of setting the targets for savings and so forth. The way that you described it, there does not seem to be a specific template or generic process by which these targets are set. The explanation that you gave was that people who had an intimate knowledge of these organisations sat around a table and, using their knowledge, came up with what would be reasonable targets. Do you actually have an instrument or a mechanism or a template and a benchmarking process to come up with potential savings?

[43] Brian Gibbons: Hoffwn ddychwelyd at y broses o bennu targedau ar gyfer arbedion ac ati. Yn ôl eich disgrifiad chi, nid ymddengys bod unrhyw dempled neu broses gyffredinol benodol a ddefnyddir er mwyn pennu'r targedau hyn. Yr esboniad a roddwyd gennych oedd bod pobl oedd â gwybodaeth drylwyr am y sefydliadau hyn yn eistedd o amgylch bwrdd a, thrwy ddefnyddio eu gwybodaeth, wedi llunio'r hyn a fyddai'n dargedau rhesymol. A oes gennych mewn gwirionedd offeryn neu ddyfais neu dempled a phroses feincnodi er mwyn pennu arbedion posibl?

Mr Shortridge: Just so that we are clear, we are talking here of the savings target of up to £3 million, as opposed to the performance targets?

Mr Shortridge: Er mwyn inni fod yn glir, a ydym yn sôn yma am y targed arbedion o hyd at £3 miliwn, yn hytrach na thargedau perfformiad?

[44] Brian Gibbons: The savings in the merger process, yes.

[44] Brian Gibbons: Yr arbedion yn y broses uno, ie.

Mr Shortridge: We did not have a template. We did not benchmark. This was, as far as we were concerned, a one-off exercise. We have not regularly been in the business of merging organisations. Within the office, we consulted widely among all the officials that had an interest in this matter and we wanted to come up with a figure that we thought was realistically achievable as

Mr Shortridge: Nid oedd gennym dempled. Nid oeddem yn meincnodi. Ymarfer unigryw oedd hwn o'n rhan ni. Nid ydym wedi bod yn ymwneud yn rheolaidd ag uno sefydliadau. O fewn y swyddfa, ymgynghorasom yn eang ymysg yr holl swyddogion a oedd â diddordeb yn y mater hwn ac yr oeddem am gael ffigur y tybiem fod modd ei gyflawni yn realistig

opposed to something that was spurious, which may have looked good on paper but would not get ownership from the agencies concerned. I think that the percentage of the running costs of the three organisations that the target represented was somewhere between 11 and 12 per cent.

Mr Phillips: Can I just add one point to that? I think that the context is important, because these savings of which the agency's share was one component part, were identified in and were requirements of the financial memorandum for the Government of Wales Bill in late 1997. That was before we had received the detailed proposals from the agency about the structure of the merged organisation. Therefore, in effect, we were making an informed estimate at that time. As the Permanent Secretary has said, we have reviewed that estimate and monitored it, but it was an estimate. We have taken decisions or made an analysis of the savings in the light of the merger process.

[45] Brian Gibbons: Following on from that, we are in a new political climate and let us say that people are looking more critically or sceptically at quangos, for the lack of a better word. In the light of your experience here, do you think that there would be a use for some sort of template or generic process because I suppose, politically, people may be looking to replicate this type of exercise in other organisations and it may be useful to have some sort of objective criteria rather than have people using subjective judgments?

Mr Shortridge: I think, if I can put it this way, that I am a strong believer in benchmarking to the extent that, across the Assembly sponsored public bodies, we could be picking up basic common indicators and seeing what those are for the sponsored bodies and then seeing the extent to which there is a satisfactory explanation of the differences. That is something that I would welcome and I

yn hytrach na rhywbeth annilys, a allai fod wedi edrych yn dda ar bapur ond na fyddai'r awdurdodau dan sylw yn cymryd perchenogaeth ohono. Credaf o ran canran costau rhedeg y tri sefydliad bod y targed a gynrychiolir rywle rhwng 11 a 12 y cant.

Mr Phillips: A allaf ychwanegu un pwynt at hynny? Credaf fod y cyd-destun yn bwysig, oherwydd nodwyd yr arbedion hyn lle yr oedd cyfran yr awdurdod yn un rhan gydrannol, ym memorandwm ariannol Mesur Llywodraeth i Gymru ar ddiwedd 1997 ac yr oedd yn un o'i ofynion. Yr oedd hynny cyn inni dderbyn cynigion manwl gan yr awdurdod ynglyn â strwythur y sefydliad unedig. Felly, mewn gwirionedd, yr oeddem yn gwneud amcangyfrifiad hyddysg ar yr adeg honno. Fel y dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol, yr ydym wedi adolygu'r amcangyfrif hwnnw a'i fonitro, ond amcangyfrif ydoedd. Yr ydym wedi gwneud penderfyniadau neu wedi gwneud dadansoddiad o'r arbedion yng ngoleuni'r broses uno.

[45] Brian Gibbons: Yn dilyn hynny, yr ydym mewn hinsawdd wleidyddol newydd a gadewch inni ddweud bod pobl yn edrych yn fwy beirniadol ar gwangos, neu'n fwy amheus ohonynt. Yng ngoleuni eich profiad yma, a ydych yn credu y byddai defnydd i ryw fath o dempled neu broses gyffredinol oherwydd, yn wleidyddol, efallai bod pobl yn awyddus i efelychu'r math hwn o ymarfer mewn sefydliadau eraill a gallai fod yn ddefnyddiol cael rhyw fath o feini prawf gwrthrychol yn hytrach na bod pobl yn defnyddio barnau goddrychol?

Mr Shortridge: Credaf, os gallaf ddweud fel hyn, fy mod yn gredwr cryf mewn meincnodi i'r graddau, ar draws cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, y gallem fod yn nodi dangosyddion cyffredin sylfaenol a gweld beth yw'r rheini ar gyfer y cyrff a noddir ac yna gweld i ba raddau y ceir esboniad boddhaol o'r gwahaniaethau. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ei groesawu a chredaf y bydd

think that the quinquennial reviews that are about to be undertaken will provide an opportunity to do that. However, it is not just benchmarking within Wales. There is the opportunity to benchmark outside Wales. I know that, in this particular case, some consideration was given to, for example, comparing the position with Scottish Enterprise and the development authorities being set up in England. I think that the view taken—which perhaps was a superficial view, but nonetheless it was the view taken—was that you were not sufficiently comparing like with like for such a comparison to be able to inform the particular figure that found its way into the expenditure memorandum of the Bill.

yr arolygon pum mlynedd sydd ar fin cael eu cynnal yn rhoi cyfle i wneud hynny. Fodd bynnag, nid ydym yn sôn am feincnodi o fewn Cymru yn unig. Ceir cyfle i feincnodi y tu allan i Gymru. Gwn, yn yr achos penodol hwn, y rhoddwyd peth ystyriaeth, er enghraifft, i gymharu'r sefyllfa gyda Scottish Enterprise a'r awdurdodau datblygu sydd yn cael eu sefydlu yn Lloegr. Credaf mai'r safbwynt a gymerwyd—a oedd o bosibl yn safbwynt arwynebol, ond dyna oedd y safbwynt a gymerwyd serch hynny—oedd nad oeddech yn cymharu tebyg at ei debyg yn ddigonol er mwyn i gymhariaeth o'r fath allu llywio'r ffigur penodol a ganfu ei ffordd i femorandwm gwariant y Mesur.

[46] Brian Gibbons: One last question, if I may. If the target is too challenging, obviously there would be an overrun and the savings will not be made. If the target is too easy, then surely the organisations will be tempted just to walk within the comfort zone of reaching the target. How do you know that, in the merger process, the various companies were not working within the comfort zone with which you had provided them?

[46] Brian Gibbons: Un cwestiwn terfynol, os gallaf. Os yw'r targed yn rhy ymestynnol, yn amlwg byddai yna orredeg ac ni chyflawnir yr arbedion. Os yw'r targed yn rhy hawdd, yna yn sicr caiff y sefydliadau eu temptio i gerdded o fewn yr ardal gyfforddus o gyrraedd y targed. Sut gwyddoch nad oedd yr amrywiol gwmnïau yn gweithio o fewn yr ardal ddiogel a ddarparwyd gennych ar eu cyfer yn y broses uno?

Mr Shortridge: I took some assurance from Sir John's report, which indicated to me that real savings had been secured and that the staffing levels of the agency were appropriate to fulfilling its functions. Sorry, there was a second point?

Mr Shortridge: Cefais beth sicrwydd gan adroddiad Syr John, a awgrymodd i mi fod arbedion gwirioneddol wedi eu cyflawni a bod lefelau staffio'r awdurdod yn briodol er mwyn cyflawni ei swyddogaethau. Mae'n ddrwg gennyf, yr oedd ail bwynt?

[47] Brian Gibbons: Yes, but if the targets were too easy, how do you know that they were too easy?

[47] Brian Gibbons: Oedd, ond os oedd y targedau'n rhy hawdd, sut y gwyddoch eu bod yn rhy hawdd?

Mr Shortridge: I know that, when I shared these targets with Mr Willott and the chairman of the board, their body language suggested to me that—

Mr Shortridge: Gwn, pan rennais y targedau hyn gyda Mr Willott a chadeirydd y bwrdd, bod eu hiaith corff yn awgrymu i mi bod—

[48] Brian Gibbons: They would say that, would they not?

[48] Brian Gibbons: Fe fyddent yn dweud hynny, oni fyddent?

Mr Shortridge: Indeed. However, we do have a pretty close working relationship

Mr Shortridge: Yn wir. Fodd bynnag, mae gennym berthynas waith eithaf agos

with these people and therefore you know the nature of the people with whom you are dealing. All I can say is that I personally—and I was the Director of Economic Affairs at this time—was satisfied that we had pitched the targets reasonably in all the circumstances.

[49] Janet Davies: Lorraine has a few more questions on this section.

[50] Lorraine Barrett: I am looking at paragraph 2.14, which sets out some factors contributing to the agency underspending its running cost budget for 1998-99, Mr Willott. To what extent was this a product of the agency seeking to keep within the cost estimates agreed for merger-related expenditure?

Mr Willott: I think that the first two items were just a result of the timing of the process of handling all the staffing issues.

[51] Lorraine Barrett: You mentioned earlier not filling vacancies leading up to the merger.

Mr Willott: That is right. And, also, the process of assessing the applications for voluntary redundancy. That was quite a task and we had to carry it out with scrupulous fairness and also, of course, with regard to the law. On the spending on information systems, basically, the spend that we had planned slipped because we had to concentrate on those systems that were important for unifying the combined organisation, for example the net and the e-mail and so on. Some of the other spend that we would have incurred during the year just had to be deferred. We just did not have the capacity for carrying out those projects. They had been deferred to later years.

[52] Lorraine Barrett: Could you tell me what the current estimated out-turn for the agency's expenditure on the merger is?

Mr Willott: I think that the figure that is

gyda'r bobl hyn ac felly yr ydych yn gwybod natur y bobl yr ydych yn delio â hwy. Y cyfan y gallaf ei ddweud yw fy mod i yn bersonol—fi oedd y Cyfarwyddwr Materion Economaidd ar y pryd—yn fodlon ein bod wedi gosod y targedau yn rhesymol ym mhob un o'r amgylchiadau.

[49] Janet Davies: Mae gan Lorraine ychydig mwy o gwestiynau ar yr adran hon.

[50] Lorraine Barrett: Yr wyf yn edrych ar baragraff 2.14, sydd yn nodi rhai ffactorau sydd yn cyfrannu at danwariant yr awdurdod o ran y gyllideb costau rhedeg ar gyfer 1998-99, Mr Willott. I ba raddau yr oedd hyn yn deillio o'r ffaith i'r awdurdod geisio cadw o fewn yr amcangyfrifon costau a gytunwyd ar gyfer gwariant yn gysylltiedig â'r uno?

Mr Willott: Credaf i'r ddwy eitem gyntaf ddeillio o amseriad y broses o ymdrin â'r holl faterion yn ymwneud â staffio.

[51] Lorraine Barrett: Soniasoch yn gynharach am beidio â llenwi swyddi gwag yn arwain at yr uno.

Mr Willott: Mae hynny'n wir. A, hefyd, y broses o asesu ceisiadau am ddiswyddiadau gwirfoddol. Yr oedd honno'n gryn orchwyl ac yr oedd yn rhaid inni ei chyflawni gyda thegwch llwyr a hefyd, wrth gwrs, o ran y gyfraith. O ran y gwariant ar systemau gwybodaeth, mewn gwirionedd, llithrodd y gwariant a fwriadwyd gennym gan fod yn rhaid inni ganolbwyntio ar y systemau hynny a oedd yn bwysig ar gyfer uno'r sefydliad cyfun, er enghraifft y rhyngwyd a'r e-bost ac ati. Yr oedd yn rhaid inni ohirio peth o'r gwariant arall y byddai'n rhaid inni fod wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn. Nid oedd y gallu gennym i gynnal y prosiectau hynny. Cawsant eu gohirio i flynyddoedd diweddarach.

[52] Lorraine Barrett: A allwch ddweud wrthyf faint yw'r amcangyfrif cyfredol o'r alldro ar gyfer gwariant yr awdurdod ar yr uno?

Mr Willott: Credaf fod y ffigur a

quoted, the cost of the merger, or savings—

[53] Lorraine Barrett: The estimated out-turn.

Mr Willott: Sorry, can you clarify? The out-turn of what?

[54] Lorraine Barrett: Of the agency's expenditure on the merger. The cost.

Mr Willott: The cost so far is about £2.6 million. The estimated final cost, years down the road when all the contributions to the pension fund are included, comes to, I think—and it was quoted in the headlines of newspapers—£4.18 million. That is the total long-term cost of the merger.

[55] Janet Davies: Does anybody have any further questions on that? I see that they do not. We will turn therefore to the section concerned with securing additional financial savings in running the new and bigger agency. In continuously searching for further financial savings, what is the agency doing to review and reduce its running costs where appropriate, Mr Willott?

Mr Willott: We do this on a continuous basis. The main stage is obviously the annual budgeting round, where we review the plans and proposals of the divisions for the resources and staff that they need for the year ahead.

[56] Janet Davies: In the report, there are some specific observations about the use of accommodation. Will you take this up and act upon it?

Mr Willott: Yes, we are already doing a number of things. For example, on the energy side, which is referred to, we carried out a review of QED a year and a half ago and are in the process of implementing what we can to improve its energy efficiency. We have commissioned another company to carry out a similar study of Llys-y-Ddraig in Penllergaer, Ladywell House and Principality House, to see what we could do in terms of

ddyfynnir, cost yr uno, neu'r arbedion—

[53] Lorraine Barrett: Amcangyfrif o'r all-dro.

Mr Willott: Mae'n ddrwg gennyf, allwch chi egluro? Alldro beth?

[54] Lorraine Barrett: Gwariant yr awdurdod ar yr uno. Y gost.

Mr Willott: Mae'r gost hyd yma tua £2.6 miliwn. Daw'r amcangyfrif o'r gost derfynol, ymhen blynnyddoedd pan fydd yr holl gyfraniadau i'r gronfa bensiwn wedi'u cynnwys—a chafodd ei ddyfynnu ym mhenawdau papurau newydd—i £4.18 miliwn, fe gredaf. Dyna gyfanswm cost tymor hir yr uno.

[55] Janet Davies: A oes gan unrhyw un unrhyw gwestiynau eraill ar hynny? Gwelaf nad oes. Trown felly at yr adran sydd yn ymwneud â sicrhau arbedion ariannol ychwanegol o ran rhedeg awdurdod newydd, mwy. Wrth chwilio'n barhaus am arbedion ariannol eraill, beth mae'r awdurdod yn ei wneud i adolygu a lleihau ei gostau rhedeg lle y bo'n briodol, Mr Willott?

Mr Willott: Yr ydym yn gwneud hyn yn barhaus. Y prif gam wrth gwrs yw'r rownd pennu cyllidebau blynnyddol, lle yr ydym yn adolygu cynlluniau a chynigion yr is-adrannau ar gyfer yr adnoddau a'r staff sydd eu hangen arnynt ar gyfer y flwyddyn i ddod.

[56] Janet Davies: Yn yr adroddiad, ceir rhai sylwadau penodol ynglyn â'r defnydd o lety. A fyddwch yn cymryd sylw o hyn ac yn gweithredu arno?

Mr Willott: Byddwn, yr ydym eisoes yn gwneud nifer o bethau. Er enghraifft, o ran ynni, y cyfeirir ato, cynhaliwyd arolwg o QED flwyddyn a hanner yn ôl ac yr ydym yn y broses o weithredu yr hyn a allwn er mwyn gwella ei effeithlonrwydd ynni. Yr ydym wedi comisiynu cwmni arall i gynnal astudiaeth debyg o Llys-y-Ddraig ym Mhenllergaer, Ty Ladywell a Thy Principality, i weld beth y gallem ei wneud o ran cynyddu arbedion yno.

increasing savings there.

When it comes to the accommodation and increasing the usage of space, since the merger, because of the various additional functions that we have taken on, the staff numbers in a number of the offices have already increased within the same accommodation. The figures, therefore, have already evolved and accommodation use has become more efficient. However, for a number of the buildings, Principality House in particular, we are now at the stage where the only way that we can make a significant impact on this is by a fairly radical change in the way that we work. We are putting a pilot scheme in place. Basically, we are talking about teleworking and have asked British Telecom to carry out a consultancy for us on this. We are also talking about hot-desking. Given that some people are on the road for probably 40 or 50 per cent of the time and should be out with customers, they will not have a desk. We will then be able to reduce the desks and space per person that we have proportionately. However, there are two consequences. One is that we have to spend quite a bit on equipment because you cannot be on the road without having the appropriate IT equipment to be in touch. Secondly, quite major cultural changes will be needed to bring this about in the organisation, which is why we are starting with a pilot scheme in Principality House shortly to see what is involved organisationally in achieving this.

[57] Janet Davies: Mr Shortridge, how do you and your officials satisfy yourselves that the agency is managing its running costs effectively and making the most of any opportunities to reduce those costs?

Mr Shortridge: I think that there are probably two elements to that. One is the process of regular monitoring and challenge, which I have described before, which goes on throughout the year, but particularly in response to the corporate plan and the business plan that the agency prepares. In addition, we need to be in a position to take a strategic look, which is why the quinquennial reviews are so important, and Edwina Hart announced

O ran y llety a chynyddu'r defnydd o le, ers yr uno, oherwydd yr amrywiol swyddogaethau ychwnaegol yr ydym wedi ymgymryd â hwy, mae nifer y staff mewn nifer o'r swyddfeydd eisoes wedi cynyddu o fewn yr un llety. Felly, mae'r ffigurau eisoes wedi esblygu ac mae'r defnydd o lety wedi dod yn fwy effeithlon. Fodd bynnag, ar gyfer nifer o'r adeiladau, Ty Principality yn arbennig, yr ydym bellach wedi cyrraedd man lle mai'r unig ffordd y gallwn gael effaith sylweddol ar hyn yw drwy newid y ffordd yr ydym yn gweithio yn eithaf radical. Yr ydym yn rhoi cynllun peilot ar waith. Mewn gwirionedd, yr ydym yn sôn am deleweithio ac wedi gofyn i British Telecom gynnal ymgynghoriad ar ein rhan ar hyn. Yr ydym hefyd yn sôn am system o weithio wrth sawl gweithfan. Gan fod rhai pobl yn teithio am 40 i 50 y cant o'r amser ac y dylent fod allan gyda chwsmeriaid, nid fydd ganddynt ddesg. Yna gallem leihau nifer y desgiau a'r gofod ar gyfer pob person sydd gennym yn gyfrannol. Fodd bynnag, mae dau ganlyniad i hyn. Y cyntaf yw bod yn rhaid inni wario cryn dipyn ar offer gan na allwch deithio heb gael yr offer TG priodol er mwyn cadw mewn cysylltiad. Yn ail, bydd angen newidiadau diwylliannol eithaf mawr i weithredu hyn o fewn y sefydliad, a dyna pam yr ydym yn dechrau gyda chynllun peilot yn Nhy Principality yn fuan i weld beth mae hyn yn ei olygu yn sefydliadol wrth gyflawni hyn.

[57] Janet Davies: Mr Shortridge, sut yr ydych chi a'ch swyddogion yn bodloni eich hunain bod yr awdurdod yn rheoli ei gostau rhedeg yn effeithiol ac yn gwneud y gorau o unrhyw gyfleoedd i leihau'r costau hynny?

Mr Shortridge: Credaf fod dwy elfen i hynny fwy na thebyg. Un ohonynt yw'r broses o fonitro'n rheolaidd a'r her, a ddisgrifiais yn gynharach, sydd yn mynd rhagddi drwy gydol y flwyddyn, ond yn arbennig mewn ymateb i'r cynllun corfforaethol a'r cynllun busnes y mae'r awdurdod yn eu paratoi. Yn ogystal, mae angen inni fod mewn sefyllfa i gymryd golwg strategol, a dyna pam bod yr arolygon pum mlynedd mor bwysig, a

yesterday that there will be a forthcoming quinquennial review of the agency. I take a lot of assurance from the work that goes into those reviews. They allow an opportunity to have a really in-depth look at the way in which the agency organises itself and, as I was saying earlier, if appropriate, to test how it is performing against how other comparable organisations are performing.

[58] Janet Davies: What kind of order of cost savings are you looking for from the agency in the current financial year?

Mr Shortridge: I do not think that I am viewing it in terms of cost savings. We have set a running cost limit for the agency for the year and we expect it to operate within that limit.

[59] Alison Halford: Mr Willott, the report indicates that there is possibly room for improvement and further investigation into energy management. Could you let us know what action the agency is taking to encourage greater awareness among its staff of the benefits of using lighting and heating more carefully?

Mr Willott: I would have to say that I think that it is probably no more than the general encouragement and awareness that these are costs that ought to be watched and saved on. I think that I referred in earlier comments to the fact that we have taken on consultants to advise us on what we can do specifically to save energy in Penllergaer, Ladywell House and Principality House. When we have their recommendations I think that we will be in a clear position to take action.

[60] Alison Halford: Would that mean that the agency has not done very much to develop an energy management policy or to review its energy management so as to identify room for improvement?

Mr Willott: We did so at the QED building. The problem is that we are to some extent

chyhoeddodd Edwina Hart ddoe y bydd arolwg pum mlynedd o'r awdurdod yn y dyfodol agos. Mae'r gwaith sydd yn cael ei wneud ar gyfer yr arolygon hynny yn rhoi llawer o sicrwydd imi. Maent yn rhoi cyfle i edrych yn fanwl iawn ar y ffordd y mae'r awdurdod yn trefnu ei hun ac, fel y dywedais yn gynharach, os yn briodol, profi sut mae'n perfformio yn erbyn sut mae sefydliadau cymaradwy yn perfformio.

[58] Janet Davies: Tua faint o arbedion cost yr ydych yn edrych amdanynt gan yr awdurdod yn y flwyddyn ariannol gyfredol?

Mr Shortridge: Nid wyf yn credu fy mod yn ei ystyried o ran arbedion cost. Yr ydym wedi pennu terfyn costau rhedeg ar gyfer yr awdurdod am y flwyddyn ac yr ydym yn disgwyl iddo weithredu o fewn y terfyn hwnnw.

[59] Alison Halford: Mr Willott, noda'r adroddiad fod yna o bosibl le i wella ac i ymchwilio ymhellach i reoli ynni. A allech roi gwybod inni pa gamau y mae'r awdurdod yn eu cymryd i annog mwy o ymwybyddiaeth ymysg ei staff o fanteision defnyddio golau a gwres yn fwy gofalus?

Mr Willott: Byddai'n rhaid imi ddweud fy mod o'r farn nad yw'n fawr mwy nag anogaeth ac ymwybyddiaeth gyffredinol y dylid cadw llygad ar y costau hyn a gwneud arbedion arnynt. Credaf fy mod wedi cyfeirio mewn sylwadau cynharach at y ffaith ein bod wedi cyflogi ymgynghorwyr i'n cynghori ar yr hyn y gallwn ei wneud yn benodol i arbed ynni ym Mhenllergaer, Ty Ladywell a Thy Principality. Pan gawn eu hargymhellion credaf y byddwn mewn sefyllfa glir i weithredu.

[60] Alison Halford: A fyddai hynny'n golygu nad yw'r awdurdod wedi gwneud llawer i ddatblygu polisi rheoli ynni nac i adolygu ei reolaeth o ynni er mwyn nodi a oes lle i wella?

Mr Willott: Gwnaethom hynny yn adeilad QED. Y problem yw ein bod yn cael ein

constrained by the quality, age and nature of the buildings that we occupy. QED, for example, has a poorly insulated roof, and there are other defects that will cost a substantial amount of money to rectify in order to achieve energy savings. We obviously have to do this in the most cost-effective and economical way that we can.

[61] Alison Halford: As the climate change problem escalates, as a public body, do you not feel that you should set a good example to the rest of us?

Mr Willott: Yes, absolutely. This is why we are carrying out studies to see what we can actually do. Bear in mind that we are not the owners of Principality House. We occupy floors 2, 3, 6 and 7.

[62] Alison Halford: Therefore, you would not feel that it would be right to criticise you for not looking at this issue a little more carefully and a little earlier?

Mr Willott: Of course you can criticise us. That is your role. We have done as much as we can, I think, and we could obviously do more. It is a matter of relative priorities with all of the other things that we have to do.

[63] Dafydd Wigley: Mae gennyf un cwestiwn sydd yn dilyn y patrwm hwnnw. Mr Willott, a yw'r adolygiad sydd yn cymryd lle ar hyn o bryd yn mynd cyn belled ag edrych ar bolisi ar gyfer defnyddio a hyrwyddo'r defnydd o ynni a gynhyrchir drwy ddulliau amgylcheddol gyfeillgar?

Mr Willott: I think that the answer is no. It is simply focused on what we can do to reduce energy consumption in our buildings.

[64] Dafydd Wigley: A ydych yn meddwl y dylai'r adolygiad wneud hynny ac y dylid ystyried hyn, yn unol â pholisi cyffredinol y Cynulliad ar yr amgylchedd?

Mr Willott: I think that we are a very small

cyfyngu i ryw raddau gan ansawdd, oedran a natur yr adeiladau yr ydym yn eu meddiannu. Mae to QED, er enghraifft, wedi'i inswleiddio'n wael, ac mae namau eraill a fydd yn costio swm sylweddol o arian i'w cywiro er mwyn cyflawni arbedion ynni. Yn amlwg mae'n rhaid inni wneud hyn yn y ffordd fwyaf cost effeithiol a darbodus â phosibl.

[61] Alison Halford: Wrth i'r broblem c newid hinsawdd waethygu, fel corff cyhoeddus, onid ydych o'r farn y dylech osod esiampl dda i'r gweddill ohonom?

Mr Willott: Ydw, yn bendant. Dyna pam ein bod yn cynnal astudiaethau i weld beth y gallwn ei wneud mewn gwirionedd. Cofiwch nad ni yw perchenogion Ty Principality. Yr ydym yn meddiannu lloriau 2, 3, 6 a 7.

[62] Alison Halford: Felly, ni fyddech o'r farn y byddai'n iawn i'ch beirniadu am beidio ag edrych ar y mater hwn ychydig yn fwy gofalus ychydig yn gynharach?

Mr Willott: Wrth gwrs y gallwch ein beirniadu. Dyna eich rôl. Yr ydym wedi gwneud cymaint ag y gallwn, yn fy marn i, a gallem wrth gwrs wneud mwy. Mae'n fater o flaenoriaethau perthnasol gyda'r holl bethau eraill y mae'n rhaid inni eu gwneud.

[63] Dafydd Wigley: I have one question that follows that pattern. Mr Willott, does the review being conducted at the moment go so far as to look at a policy of using and promoting the use of energy produced by environmentally friendly means?

Mr Willott: Credaf mai'r ateb yw nac ydy. Mae'n canolbwyntio'n syml ar yr hyn y gallwn ei wneud i leihau'r defnydd o ynni yn ein hadeiladau.

[64] Dafydd Wigley: Do you think that the review should do that and that it should be considered, in line with the Assembly's general policy on the environment?

Mr Willott: Credaf mai defnyddiwr ynni

consumer of energy. What we can do will probably not be hugely influential. I think that the Assembly itself has a much greater ability to influence this.

[65] Peter Black: I will ask you some more questions about that, Mr Willott. When Edwina Hart announced her quinquennial review yesterday, she was at pains to stress that she expects the Assembly sponsored public bodies to take the Assembly's agenda on board in terms of a number of issues, particularly sustainable development. You are obviously at the forefront in social inclusion. The Assembly is adopting a policy on sustainable development, which will focus to a great extent on energy use and on the use of alternative sources of energy. Although that may not always be the most cost-effective way, it would be useful if agencies, such as yours, would look at their energy use and at how the environment can be helped by considering other, environmentally-friendly sources of energy. We are not only talking about sources of energy. You said that the roof of Principality House leaks heat. Therefore, the energy efficiency of buildings needs to be considered.

Mr Willott: On sustainable development, as I think you know, the agency published a consultancy document some five or six months ago on this. We have consulted extensively on what we can do to promote sustainable development and we are now in a position to finalise our document in the light of the Assembly having finalised its policy on sustainable development. So I think that that will obviously be very important in setting guidelines for what we do, both in terms of work with our customers and for the agency as a whole. Sustainable development and energy saving is not just, of course, about energy consumption in buildings. It is about other things like transport and so on. We are at the moment trying to develop a green travel plan for people working in Cardiff. So there are various fronts on which we have to try to attack this issue.

bach iawn ydym. Mae'n debyg na chaiff yr hyn y gallwn ei wneud ddylanwad mawr. Credaf fod gan y Cynulliad ei hun lawer mwy o allu i ddylanwadu ar hyn.

[65] Peter Black: Hoffwn ofyn mwy o gwestiynau ichi ynglyn â hynny, Mr Willott. Pan gyhoeddodd Edwina Hart ei harolwg pum mlynedd ddoe, yr oedd yn awyddus i bwysleisio ei bod yn disgwyl i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad fabwysiadu agenda'r Cynulliad ar nifer o faterion, yn arbennig datblygiad cynaliadwy. Yr ydych yn amlwg yn flaenllaw ym maes cynhwysiant cymdeithasol. Mae'r Cynulliad yn mabwysiadu polisi ar ddatblygu cynaliadwy, a fydd yn canolbwyntio i raddau helaeth ar ddefnyddio ynni ac ar ddefnyddio ffynonellau ynni amgen. Er nad dyna fydd y ffordd fwyaf cost-effeithiol bob tro, byddai'n ddefnyddiol pe bai awdurdodau, fel eich un chi, yn edrych ar eu defnydd o ynni ac ar sut y gellid helpu'r amgylchedd drwy ystyried ffynonellau ynni eraill sydd yn gyfeillgar i'r amgylchedd. Nid dim ond am ffynonellau ynni yr ydym yn sôn. Dywedasoeh fod gwres yn dianc drwy do Ty Principality. Felly, mae angen ystyried effeithlonrwydd ynni adeiladau.

Mr Willott: O ran datblygu cynaliadwy, fel y gwyddoch mae'n siwr, cyhoeddodd yr awdurdod ddogfen ymgynghorol ar hyn ryw bum neu chwe mis yn ôl. Yr ydym wedi ymgynghori'n eang ar yr hyn y gallwn ei wneud i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac yr ydym bellach mewn sefyllfa i gyflwyno'r ddogfen ar ei ffurf derfynol yng ngoleuni'r ffaith i'r Cynulliad benderfynu ar ffurf derfynol ei bolisi ar ddatblygu cynaliadwy. Felly credaf y bydd hynny'n bwysig iawn o ran pennu canllawiau ar gyfer yr hyn a wnawn, o ran gwaith gyda'n cwsmeriaid ac ar gyfer yr awdurdod yn gyffredinol. Wrth gwrs, nid yw datblygu cynaliadwy ac arbed ynni yn ymwneud â'r defnydd o ynni mewn adeiladau yn unig. Mae'n ymwneud â phethau eraill fel cludiant ac ati. Yr ydym ar hyn o bryd yn ceisio datblygu cynllun teithio gwyrdd ar gyfer pobl sydd yn gweithio yng Nghaerdydd. Felly dylem geisio mynd i'r afael â'r mater

hwn ar sawl agwedd.

[66] Peter Black: You mentioned earlier that a lot of your staff spend up to 50 per cent of their time on the road. Have you looked at trying to reduce that amount of travel through more extensive use of teleworking?

Mr Willott: Yes, we have actually commissioned a specific study from BT as to the extent to which we can use it, and how we can organise and use teleworking better.

[67] Janet Davies: I was a bit concerned, Mr Willott, when you said that there are problems with energy efficiency—you are talking about the QED building in Treforest, I presume.

Mr Willott: Yes.

[68] Janet Davies: That is a fairly new building.

Mr Willott: It is not all that new.

[69] Janet Davies: Well, it is not that old either. Would you think that there are lessons for the future to ensure that buildings are more energy efficient, rather than simply going for the cheapest option always?

Mr Willott: Yes. I think that there is much more awareness now of the need for energy efficiency in building design and it is certainly a part of our sustainable development policy to do that. The QED building does not have ideal roof insulation, it is structured with a large reception area, and it uses electric storage heating. All of this is not ideal and we can obviously change it, but it costs quite a lot in capital to replace all this and so we have to balance the rate at which we spend capital expenditure against the energy savings achieved. It does cost money up front.

[70] Janet Davies: I think that there are a few other things that we wish to pursue on this report before going on to the next one.

[66] Peter Black: Soniasoch yn gynharach fod llawer o'ch staff yn treulio hyd at 50 y cant o'u hamser yn teithio. A ydych wedi ystyried ceisio lleihau'r swm hwnnw o deithio drwy ddefnydd ehangach o deleweithio?

Mr Willott: Do, mewn gwirionedd yr ydym wedi comisiynu astudiaeth benodol gan BT ar i ba raddau y gallwn ei ddefnyddio, a sut y gallwn drefnu a defnyddio teleweithio yn well.

[67] Janet Davies: Yr oeddwn ychydig yn bryderus, Mr Willott, pan ddywedoch bod problemau gydag effeithlonrwydd ynni—yr ydych yn sôn am adeilad QED yn Nhrefforest, fe dybiaf.

Mr Willott: Ydw.

[68] Janet Davies: Mae hwnnw'n adeilad cymharol newydd.

Mr Willott: Nid yw mor newydd â hynny.

[69] Janet Davies: Wel, nid yw mor hen â hynny ychwaith. A gredwch fod gwersi i'w dysgu ar gyfer y dyfodol i sicrhau bod adeiladau yn fwy ynni effeithlon, yn hytrach na dewis yr opsiwn rhataf bob amser?

Mr Willott: Ydw. Credaf fod llawer mwy o ymwybyddiaeth yn awr o'r angen am effeithlonrwydd ynni wrth gynllunio adeiladau ac yn sicr mae'n rhan o'n polisi datblygu cynaliadwy i wneud hynny. Nid yw'r inswleiddio yn nho adeilad QED yn ddelfrydol, mae'n strwythuredig gyda derbynfa fawr ac mae'n defnyddio gwresogyddion storio trydan. Nid yw hyn yn ddelfrydol a gallwn ei newid yn amlwg, ond mae'n costio cryn dipyn o ran cyfalaf i adnewyddu hyn oll ac felly mae'n rhaid inni gydbwyso'r cyflymder yr ydym yn gwario cyfalaf gwariant yn erbyn yr arbedion ynni a gyflawnir. Mae'n costio arian y mae'n rhaid ei dalu ymlaen llaw.

[70] Janet Davies: Credaf fod ychydig o bethau eraill yr hoffem eu trafod ynglyn â'r adroddiad hwn cyn symud ymlaen i'r

Rather than trying to push them in very quickly, I think that the best thing would be to take a coffee break now, come back and finish this report, and then go on to the one on indigenous investment. It is 10.40 now. I ask you all to be back at 10.55, please.

nesaf. Yn hytrach na cheisio eu gwasgu i mewn yn gyflym iawn, credaf mai'r peth gorau fyddai cael egwyl goffi yn awr, dychwelyd a gorffen yr adroddiad hwn, yna symud ymlaen i'r un ar fuddsoddiad cynhenid. Mae yn awr yn 10.40. Gofynnaf i bawb ohonoch fod yn ôl erbyn 10.55, os gwelwch yn dda.

[*Cynhaliwyd egwyl goffi rhwng 10.40 a.m. a 10.55 a.m.*]

[*A coffee break was held between 10.40 and 10.55 a.m.*]

[71] Janet Davies: Welcome back. Brian Gibbons will ask a few more questions on this item, then I will ask some general questions before we move on to discuss the report, 'Welsh Development Agency: Support for Indigenous Businesses in Wales'.

[71] Janet Davies: Croeso yn ôl. Bydd Brian Gibbons yn gofyn ychydig mwy o gwestiynau ar yr eitem hon, yna byddaf yn gofyn rhai cwestiynau cyffredinol cyn inni symud ymlaen i drafod yr adroddiad, 'Welsh Development Agency: Support For Indigenous Businesses in Wales'.

[72] Brian Gibbons: Most of my questions are about the functionality of the buildings that the agency uses. Obviously functionality is a key element of the buildings the agency uses, but does it give any thought or consideration to the image or vision that the buildings it uses convey to people and customers? In other words, do you think that the type and style of a building, rather than just its functionality, has an impact on the way that you do your work?

[72] Brian Gibbons: Mae'r rhan fwyaf o'm cwestiynau yn ymwneud â natur ymarferol yr adeiladau a ddefnyddir gan yr awdurdod. Yn amlwg mae ymarferoldeb yn elfen allweddol o'r adeiladau a ddefnyddir gan yr awdurdod, ond a yw'n rhoi unrhyw ystyriaeth i'r ddelwedd neu'r weledigaeth y mae'r adeiladau y mae'n eu defnyddio yn eu cyfleu i bobl a chwsmeriaid? Mewn geiriau eraill, a ydych o'r farn mai math a steil adeilad, yn hytrach na'i natur ymarferol, sydd yn cael effaith ar y ffordd yr ydych yn gweithio?

Mr Willott: I have two points in response. First, the image that we try to convey is that of a modern, high technology, thriving Wales, so we want our offices to give that impression to the people with whom we deal. That is obviously relevant to inward investors, but it is also important in setting the tone for other customers. Secondly, it costs money to move between buildings. To some extent, we have the inherited base from the three organisations. We have obviously tried to rationalise as much as possible to reduce the number of buildings that we have and hence reduce the costs. To move to different buildings will inevitably have a very substantial upfront cost, both for the building and removal.

Mr Willott: Mae gennyf ddau bwynt mewn ymateb i hynny. Yn gyntaf, y ddelwedd yr ydym yn ceisio ei chyfleu yw delwedd o Gymru fodern, sydd yn defnyddio uwch dechnoleg, ac yn ffynnu, felly yr ydym am i'n swyddfeydd greu'r argraff honno i'r bobl yr ydym yn delio â hwy. Mae hynny yn amlwg yn berthnasol i fewnfuddsoddwyr, ond mae'n hefyd yn bwysig gosod y naws ar gyfer cwsmeriaid eraill. Yn ail, mae symud rhwng adeiladau yn costio arian. I ryw raddau, mae gennym sail a etifeddwyd gan y tri sefydliad. Yn amlwg yr ydym wedi ceisio rhesymoli gymaint â phosibl er mwyn lleihau nifer yr adeiladau sydd gennym ac o ganlyniad lleihau'r costau. Bydd cost sylweddol iawn y bydd yn rhaid ei thalu ymlaen llaw ynghlwm â symud i wahanol adeiladau, o ran yr adeilad a'r broses o symud.

[73] Brian Gibbons: Could you put a premium on the image element that you mentioned, because most of my questions are functional and pragmatic, for example, on how many desks and tables you have? However, I agree that image is important and I want to know whether or not you can quantify how important it is.

Mr Willott: Like all such cultural matters, I do not know how on earth you would evaluate it. If you are going to present an image and try to get your staff and customers thinking in a positive, modern mode, then you have to do it that way. It does not necessarily of itself cost any more, but if you were to change to a different mode, then that change would cost.

[74] Brian Gibbons: If two premises were equal in terms of functionality and one gave you the modern image that you want to convey, what do you think would be a reasonable premium to pay?

Mr Willott: We are not in that position. We just have the buildings that we have.

[75] Brian Gibbons: Okay. It is not a question you can answer.

Mr Willott: It is not a question I can answer, sorry.

[76] Brian Gibbons: But you think that it is an important question?

Mr Willott: Yes. The brand, culture and nature—what we convey to the customer—is very important.

[77] Brian Gibbons: Thank you. Coming back to desks and tables, the report looks in detail at how you use your office space. How does the agency ensure that it is using this expensive resource as efficiently as possible?

Mr Willott: The only way is by constant effort. As I said before the break, we have had a constantly changing number of staff

[73] Brian Gibbons: A allech roi premiwm ar yr elfen o ddelwedd y soniasoch amdani, oherwydd mae'r rhan fwyaf o'm cwestiynau yn swyddogaethol ac yn bragmataidd, er enghraifft, ar sawl desg a bwrdd sydd gennych? Fodd bynnag, cytunaf fod delwedd yn bwysig a hoffwn wybod a allwch feintioli pa mor bwysig ydyw.

Mr Willott: Fel pob mater diwyllannol o'r fath, ni wn ar y ddaear sut y byddech yn ei werthuso. Os ydych am gyflwyno delwedd a cheisio cael eich staff a'ch cwsmeriaid i feddwl mewn modd cadarnhaol, modern, yna mae'n rhaid ichi ei wneud yn y ffordd honno. Nid yw o anghenraid yn costio mwy ynddo'i hun, ond pe baech yn newid i fodd gwahanol, byddai cost i'r newid hwnnw.

[74] Brian Gibbons: Pe bai'r ddau eiddo yn gyfartal o ran natur ymarferol a bod un yn rhoi ichi'r ddelwedd fodern yr ydych am ei chyfleu, faint yn eich barn chi fyddai'r premiwm rhesymol i'w dalu?

Mr Willott: Nid ydym yn y sefyllfa honno. Dim ond yr adeiladau sydd gennym sydd yna.

[75] Brian Gibbons: O'r gorau. Nid yw'n gwestiwn y gallwch ei ateb.

Mr Willott: Nid yw'n gwestiwn y gallaf ei ateb, mae'n ddrwg gennyf.

[76] Brian Gibbons: Ond yr ydych o'r farn ei fod yn gwestiwn pwysig?

Mr Willott: Ydw. Mae'r brand, diwylliant a natur—beth bynnag yr ydym yn ei gyfleu i'r cwsmer—yn bwysig iawn.

[77] Brian Gibbons: Diolch. Gan ddychwelyd at ddesgiau a byrddau, mae'r adroddiad yn edrych yn fanwl ar y ffordd yr ydych yn defnyddio eich gofod swyddfa. Sut mae'r awdurdod yn sicrhau ei fod yn defnyddio'r adnodd drudfawr hwn mor effeithlon â phosibl?

Mr Willott: Yr unig ffordd yw drwy ymdrech gyson. Fel y dywedais cyn yr egwyl, bu newid parhaus yn nifer ein staff

and in some of the offices we have simply increased the numbers that we have squeezed into the building. There is a table in the report—figure 20—which shows what has happened. Things have moved on from there. For example, another 20 staff have moved into the QED centre, so the square metres per person have reduced from 18.8 in September to 13.68. Therefore, some efficiencies are achieved just by the passage of time and squeezing in more staff.

[78] Brian Gibbons: Yes, but did you go through a process of external comparison or benchmarking?

Mr Willott: To some extent, but not systematically. The National Audit Office report was quite interesting and helpful concerning benchmarking and typical levels, particularly for energy, for example. That was quite thought provoking. On the occupation densities, it is always difficult to benchmark that because you have to compare like with like. As I said before the break, the key issue on occupation is the extent to which people are out of the office and on the road, and therefore, the extent to which you can have less space permanently occupied. The answer to that must be hot-desking and modern technology and we will move in that direction.

[79] Brian Gibbons: The report highlights the problems with document storage, archiving and so on. What is the agency doing to reduce its reliance on paper and make more use of modern technology and so on?

Mr Willott: Unfortunately we cannot do what we would sometimes like to do, which is to invite you to a large bonfire—

[80] Brian Gibbons: As long as you are not on it. [*Laughter.*]

Mr Willott: Unfortunately we have to retain our archives for legal and accountability reasons and all the reasons

ac mewn rhai o'r swyddfeydd yr ydym wedi cynyddu'r niferoedd yr ydym wedi eu gwasgu i mewn i'r adeilad. Mae tabl yn yr adroddiad—ffigur 20—sydd yn dangos beth sydd wedi digwydd. Mae pethau wedi symud ymlaen ers hynny. Er enghraifft, mae 20 aelod arall o staff wedi symud i mewn i'r ganolfan QED, felly mae'r metrau sgwâr fesul person wedi gostwng o 18.8 ym Medi i 13.68. Felly, cyflawnwyd rhai arbedion effeithlonrwydd dim ond yn sgîl treigl amser a gwasgu mwy o staff i mewn.

[78] Brian Gibbons: Ie, ond a aethoch drwy broses o gymharu yn allanol neu feincnodi?

Mr Willott: I ryw raddau, ond nid yn systemataidd. Yr oedd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn eithaf diddorol a defnyddiol o ran meincnodi a lefelau nodweddiadol, yn arbennig ar gyfer ynni, er enghraifft. Yr oedd hynny'n ysgogi'r meddwl. O ran dwysedd galwedigaethol, mae bob amser yn anodd meincnodi hynny gan fod yn rhaid ichi gymharu tebyg at ei debyg. Fel y dywedais cyn yr egwyl, y prif fater o ran galwedigaeth yw i ba raddau y mae pobl allan o'r swyddfa ac ar y ffordd, ac felly, i ba raddau y gallwch gael llai o ofod sydd yn cael ei ddefnyddio'n barhaol. Yr ateb i hynny yw symud gweithfannau a thechnoleg fodern a byddwn yn symud i'r cyfeiriad hwnnw.

[79] Brian Gibbons: Mae'r adroddiad yn amlygu'r problemau gyda storio dogfennau, creu archifau ac ati. Beth mae'r awdurdod yn ei wneud i leihau ei ddibyniaeth ar bapur a gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg fodern ac ati?

Mr Willott: Yn anffodus ni allwn wneud yr hyn yr hoffem ei wneud bob amser, sef eich gwahodd i weld coelcerth fawr—

[80] Brian Gibbons: Ar yr amod na fyddwch chi arni. [*Chwerthin.*]

Mr Willott: Yn anffodus mae'n rhaid inni gadw ein harchifau am resymau cyfreithiol ac atebolrwydd a'r holl resymau pam bod

why the public sector has to do so. Obviously, we are actively considering moving towards document imaging and so on as part of our overall IT development. We will be driving towards becoming an e-business within a short period. However, there are many issues about how to manage parallel paper and electronic systems. In other words, if you have a file on a particular issue, some of your documents may inevitably come in from outside and may have to be retained in that form if they are legal documents. Others are internal e-mails. We are in the middle of trying to sort out how we develop and handle that. I am sure that we will want to learn from other organisations in the public sector that have done the same.

[81] Brian Gibbons: From what you are saying, it is very much in an embryonic stage.

Mr Willott: It is ongoing.

[82] Brian Gibbons: What progress is the agency making in developing more flexible working practices in terms of role, time and so on? You have touched on some of them.

Mr Willott: We operate flexi-time and that is obviously helpful to people with family commitments. The issue is how far we can develop teleworking. We have commissioned a study on how far we can develop teleworking and what is involved in that, both functionally in terms of the hardware and systems, and how we are to do it organisationally. That must be tied in with hot-desking and having people on the road. It is all part of a move to much more flexible working, which will hopefully meet to a greater degree the needs of those members of staff who have other commitments around which they want to fit their work.

[83] Brian Gibbons: Is there much scope for flexible role change within the agency?

yn rhaid i'r sector cyhoeddus wneud hynny. Yn amlwg, yr ydym wrthi'n ystyried symud tuag at ddelweddu dogfennau ac ati fel rhan o'n datblygiad TG cyffredinol. Byddwn yn anelu at ddod yn e-fusnes o fewn cyfnod byr. Fodd bynnag, mae nifer o faterion ynglyn â sut i reoli systemau papur a systemau electronig cyfochrog. Mewn geiriau eraill, os oes gennych ffeil ar fater arbennig, bydd rhai o'ch dogfennau yn anochel yn dod o'r tu allan ac efallai y bydd yn rhaid eu cadw ar y ffurf honno os ydynt yn ddogfennau cyfreithiol. Mae dogfennau eraill yn negeseuon e-bost mewnol. Yr ydym ar ganol ceisio datrys sut i ddatblygu ac ymdrin â hynny. Yr wyf yn sicr y byddwn am ddysgu o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus sydd wedi gwneud yr un peth.

[81] Brian Gibbons: O'r hyn a ddywedwch, dim ond megis dechrau y mae hyn.

Mr Willott: Mae'n barhaus.

[82] Brian Gibbons: Pa gynnydd y mae'r awdurdod yn ei wneud wrth ddatblygu arferion gwaith mwy hyblyg o ran swyddogaeth, amser ac ati? Yr ydych wedi sôn am rai ohonynt.

Mr Willott: Yr ydym yn gweithredu cynllun oriau hyblyg ac mae hyn yn amlwg yn ddefnyddiol i bobl sydd ag ymrwymadau teuluol. Y mater pwysig yw i ba raddau y gallwn ddatblygu teleweithio. Yr ydym wedi comisiynu astudiaeth ar i ba raddau y gallwn ddatblygu teleweithio a beth fyddai hynny yn ei olygu, o ran natur ymarferol yn nhermau'r caledwedd a'r systemau, a sut yr ydym am ei wneud yn sefydliadol. Mae'n rhaid i hynny fod ynghlwm â symud gweithfannau a chael pobl yn teithio. Mae hyn oll yn rhan o symudiad tuag at weithio mwy hyblyg o lawer, a fydd gobeithio yn cwrdd ag anghenion yr aelodau hynny o staff sydd ag ymrwymadau eraill y maent am ffio eu gwaith i mewn o'u hamgylch i raddau helaethach.

[83] Brian Gibbons: A oes llawer o gyfle i newid rolau yn hyblyg o fewn yr

awdurdod?

Mr Willott: Yes. We operate this in various ways. We advertise all posts internally, so if people wish to change their role and the nature of their work, they are aware of the opportunities. That is a wide question and all I can say is that this is ongoing.

[84] Janet Davies: Mr Shortridge, I want to ask you two questions, unless of course you raise any other matters in your answer about which I may want to ask. Can you give me an idea of what you think might have been lost in this merger?

Mr Shortridge: I suppose, speaking factually, the main thing that was lost was the Land Authority for Wales and the Development Board for Rural Wales. Therefore, the issue is the extent to which having those as separate agencies was in itself beneficial. For example, the Land Authority had established a fine reputation for itself, was using powers which had become quite novel within the UK, and within its own terms was a success.

Similarly, the DBRW was an organisation that was highly regarded in central rural Wales and had its own image. Those things have been lost and one must recognise that. However, what I am interested in, and I think what this Committee should be interested in, is whether there was a net loss or a net benefit. My view is that those losses have been more than compensated for by the fact that we have this enlarged agency providing identical services across the whole of Wales. The DBRW did not operate throughout rural Wales so that there are all those benefits at a lower net overhead cost. Also, the way the merger was managed was such as to retain as much as possible of the benefits of the Land Authority. There have been some losses, but I think that my judgment, and the judgment of anyone reading this report, would be that overall there has been significant benefit from this merger.

Mr Willott: Oes. Yr ydym yn gweithredu hyn mewn amrywiol ffyrdd. Yr ydym yn hysbysebu pob swydd yn fewnol, felly os bydd pobl am newid eu rôl a natur eu gwaith, maent yn ymwybodol o'r cyfleoedd. Mae hwnnw'n gwestiwn eang a'r cyfan y gallaf ei ddweud yw ei fod yn barhaus.

[84] Janet Davies: Mr Shortridge, hoffwn ofyn dau gwestiwn ichi, oni bai wrth gwrs eich bod am godi unrhyw fater arall yn eich ateb yr hoffwn eich holi yn ei gylch. A allwch roi syniad imi o'r hyn a allai fod wedi ei golli yn sgîl yr uno yn eich barn chi?

Mr Shortridge: Mae'n debyg, a siarad yn ffeithiol, mai'r prif beth a gollwyd oedd Awdurdod Tir Cymru a Bwrdd Datblygu Cymru Wledig. Felly, y mater yw i ba raddau yr oedd cael y rheini fel awdurdodau ar wahân o fudd ynddo'i hun. Er enghraifft, yr oedd yr Awdurdod Tir wedi sefydlu enw da iawn iddo'i hun, yn defnyddio pwerau a oedd wedi dod yn eithaf newydd o fewn y DU, ac o fewn ei dermau ei hun yr oeddent yn llwyddiant.

Yn yr un modd, yr oedd parch mawr tuag at Fwrdd Datblygu Cymru Wledig yng nghanolbarth gwledig Cymru ac yr oedd ganddo ei ddelwedd ei hun. Mae'r pethau hynny wedi'u colli a rhaid cydnabod hynny. Fodd bynnag, yr hyn y mae gennyf ddiddordeb ynddo, a'r hyn y credaf y dylai'r Pwyllgor hwn fod â diddordeb ynddo, yw a oedd colled net neu fudd net. Yn fy marn i gwnaethpwyd iawn am y colledion hynny a mwy gan y ffaith bod gennym yr awdurdod estynedig hwn yn darparu gwasanaethau union yr un fath drwy Gymru gyfan. Nid oedd Bwrdd Datblygu Cymru Wledig yn gweithredu ledled Cymru wledig felly ceir yr holl fuddiannau hynny ar gost gorbenion net is. Hefyd, cafodd yr uno ei reoli mewn ffordd a lwyddodd i gadw cymaint â phosibl o fuddiannau'r Awdurdod Tir. Cafwyd peth colledion, ond credaf mai fy marn i, a barn unrhyw un arall sydd yn darllen yr adroddiad hwn, fyddai bod budd

sylweddol wedi deillio o'r uno hwn ar y cyfan.

[85] Janet Davies: We have talked quite a lot about cost effectiveness. Do you agree that the biggest overall cost savings would occur if the whole agency were closed down and its functions transferred, perhaps to local government, and led by the Assembly?

Mr Shortridge: I think that if you were to close down the agency and spread its functions between local government and possibly other agencies it would become impossible to calculate the replacement cost of providing those services. Certainly if you look at the other half of the balance sheet in terms of benefits, I think that the ethos of this merger was that by centralising these activities within one agency there were substantial benefits to be secured. I think that this Committee and the Assembly would find it very difficult to monitor the effectiveness and performance of Wales plc in providing economic development services if they were significantly diffused among a very large number of organisations.

[86] Dafydd Wigley: Hoffwn ddilyn pwynt olaf Jon Shortridge, sef bod manteision o ganoli. Fodd bynnag, os yw rhywun yn dilyn y rhesymeg hon, mae manteision ariannol ychwanegol i'w cael o ddod â hyn o dan yr un to â'r Cynulliad. Y fantais o gael corff sydd ar wahân i'r Cynulliad yw bod y gweithgareddau yn digwydd i ffwrdd o'r canol a'u bod yn sensitif i anghenion ardaloedd gwahanol megis y Cymoedd a chefn gwlad. I ba raddau y gallwch ddweud bod y strwythur newydd yn ddigon sensitif i'r anghenion hynny ac nad yw'r broses o ganoli wedi arwain at sefyllfa lle mae'r gwasanaeth sydd yn cael ei ddarparu'n lleol yn llai derbyniol ac yn llai effeithiol i'r ardaloedd hynny?

Mr Shortridge: That is a very big and difficult issue. I answered my question much more from the point of view that if responsibility for inward investment, for

[85] Janet Davies: Yr ydym wedi sôn cryn dipyn am gost effeithiolrwydd. A ydych yn cytuno y byddai'r arbedion cost cyffredinol mwyaf yn digwydd pe bai'r awdurdod cyfan yn cael ei ddiddymu a'i swyddogaethau'n cael eu trosglwyddo, efallai i lywodraeth leol, a'u harwain gan y Cynulliad?

Mr Shortridge: Credaf pe baech yn diddymu'r awdurdod ac yn rhannu ei swyddogaethau rhwng llywodraeth leol ac awdurdodau eraill o bosibl, y byddai'n amhosibl cyfrifo cost ailddarparu'r gwasanaethau hynny. Yn sicr os edrychwch ar ochr arall y geiniog o ran manteision, credaf mai ethos yr uniad hwn oedd bod modd sicrhau manteision sylweddol drwy ganoli'r gweithgareddau hyn o fewn un awdurdod. Credaf y byddai'r Pwyllgor hwn a'r Cynulliad yn ei chael yn anodd iawn i fonitro effeithiolrwydd a pherfformiad Cymru ccc o ran darparu gwasanaethau datblygu economaidd pe baent wedi eu gwasgaru'n sylweddol ymysg nifer fawr iawn o sefydliadau.

[86] Dafydd Wigley: I would like to follow on from Jon Shortridge's last point, namely that there are advantages in centralising. However, if one follows that reasoning, there are additional financial benefits to be had from bringing this under the same roof as the Assembly. The advantage of having a body separate from the Assembly is that the activities take place away from the centre and are sensitive to the needs of different areas such as the Valleys and rural Wales. To what extent can you say that the new structure is sufficiently sensitive to those needs and that the process of centralisation has not led to a situation where the service that is provided locally is less acceptable and less effective for those areas?

Mr Shortridge: Mae hwnnw'n fater pwysig ac anodd. Atebais fy nghwestiwn yn fwy o'r safbwynt pe bai'r cyfrifoldeb dros fewnuddsoddi, er enghraifft—sef un

example—which was one interpretation of the Chair’s question—was to be diffused between 22 local authorities then you could have quite serious disbenefits arising from that. It does seem to me that there is the potential, in terms of the relationship which I hope will increasingly be forged between the Assembly and the agency, to ensure that the agency can become increasingly sensitive to the issues that Assembly Members consider to be important. Clearly that refers to the point that you made, in terms of being sensitive to particular local areas and local issues, but to other things as well. What we had before under the Welsh Office was a relationship between Ministers, the Chair and the Board, and between officials in the Welsh Office and officials in the agency. Everyone within that framework was doing their best for Wales and to get the best outcome. What we have now within the Assembly are 60 elected Members, who in their different ways have an opportunity to influence the thinking and the development of the thinking. The Economic Development Committee, in particular, can help to inform the priorities of the agency, and we as officials can pick up on that and use it in our official dealings with the agency. What I am saying is that under the sort of model which has to happen and is determined by the Assembly, there is a much greater opportunity than there was in the past for the agency to operate in a way that reflects the political thinking across Wales, which is manifested in the Assembly.

[87] Janet Davies: Thank you. We have completed the questions on the first and major report about the merger. I turn now to the report on indigenous businesses. This is a descriptive report and I am sure that Members have several questions to ask on it. I will start with a question to Mr Willott. The report describes and illustrates the wide range of the agency’s support for businesses in Wales; businesses of different sizes, sectors and locations. Are you happy that you have the right tools to achieve your aims and objectives in supporting indigenous businesses?

dehongliad o gwestiwn y Cadeirydd—yn cael ei rannu rhwng 22 o awdurdodau lleol yna gallai anfanteision eithaf dybryd ddeillio o hynny. Ymddengys i mi bod potensial, o ran y berthynas a fydd gobeithio yn gynyddol yn ffurfio rhwng y Cynulliad a’r awdurdod, i sicrhau y gall yr awdurdod ddod yn fwyfwy sensitif i faterion y mae Aelodau’r Cynulliad yn eu hystyried yn faterion pwysig. Yn amlwg, mae hynny’n cyfeirio at y pwynt a wnaethoch, o ran bod yn sensitif i ardaloedd lleol penodol a materion lleol, ond i bethau eraill hefyd. Yr hyn a oedd gennym o’r blaen dan y Swyddfa Gymreig oedd perthynas rhwng Gweinidogion, y Cadeirydd a’r Bwrdd, a rhwng swyddogion yn y Swyddfa Gymreig a swyddogion yn yr awdurdod. Yr oedd pawb o fewn y fframwaith hwnnw yn gwneud eu gorau dros Gymru ac i gael y canlyniad gorau. Yr hyn sydd gennym bellach o fewn y Cynulliad yw 60 o Aelodau etholedig, sydd yn eu ffyrdd gwahanol yn cael cyfle i ddylanwadu ar y feddylfryd a datblygu’r feddylfryd. Gall y Pwyllgor Datblygu Economaidd, yn arbennig, helpu i lywio blaenoriaethau’r awdurdod, a gallwn fel swyddogion gymryd sylw o hynny a’i ddefnyddio yn ein hymdriniaethau swyddogol gyda’r awdurdod. Yr hyn yr wyf yn ei ddweud yw, o dan y math o fodel y mae’n rhaid iddo ddigwydd ac a benderfynir gan y Cynulliad, mae llawer mwy o gyfle nag a fu yn y gorffennol i’r awdurdod weithredu mewn ffordd sydd yn adlewyrchu’r feddylfryd wleidyddol ledled Cymru, a amlygir yn y Cynulliad.

[87] Janet Davies: Diolch. Yr ydym wedi cwblhau’r cwestiynau ar yr adroddiad cyntaf a’r prif adroddiad ar yr uno. Trof yn awr at adroddiad ar fusnesau cynhenid. Adroddiad disgrifiadol yw hwn ac yr wyf yn sicr fod gan yr Aelodau nifer o gwestiynau i’w gofyn ynglyn ag ef. Dechreuaf gyda chwestiwn i Mr Willott. Mae’r adroddiad yn disgrifio ac yn dangos ystod eang o gefnogaeth yr awdurdod i fusnesau yng Nghymru; busnesau o wahanol feintiau, sectorau a lleoliadau. A ydych yn fodlon bod gennych yr offer cywir i gyflawni eich nodau a’ch amcanion o ran cefnogi busnesau cynhenid?

Mr Willott: Can I make one comment? If, in relation to the subject that we have just discussed, the Committee, having considered the questions on the Auditor's report, feels that the agency has done a good job, I hope that it would feel able to commend the staff of the agency for having done that. I just make that as a passing plea.

[88] Janet Davies: I am sure that we will give a fair comment when we finalise the report.

Mr Willott: I am just concerned because the staff put in a lot of effort and I would hope that whatever they did was appropriately recognised. I ask no more than that.

[89] Janet Davies: I do not think that we are here to be critical without cause.

Mr Willott: Sure. To turn to your question, it is a huge one. The report is extremely helpful in indicating that support for business is not just business development programmes. It is the much wider range of activities—from providing premises, sites and infrastructure from where businesses can actually operate, to the regeneration of the environment that provides a much healthier place for them to operate in. In terms of have we got the ability to deliver all that, the thing I think about the agency—and this is why you have an agency—is that we can recruit and retain professional staff who are skilled and knowledgeable in the areas in which they work. Therefore, where we are operating, I think that we are reasonably effective in what we do.

[90] Janet Davies: What impact has the support that you have given to indigenous businesses had in Wales?

Mr Willott: We measure ourselves against the strategic targets each year and those are crystallised in terms of jobs created and supported, private sector investment and various things like that. We measure ourselves against those targets and in the main we have been consistently successful

Mr Willott: A gaf wneud un sylw? Os bydd y Pwyllgor, mewn perthynas â'r pwnce yr ydym newydd ei drafod, ac wedi iddo ystyried y cwestiynau ar adroddiad yr Archwilydd, o'r farn bod yr awdurdod wedi gwneud gwaith da, gobeithiaf y byddai'n teimlo y gallai ganmol staff yr awdurdod am wneud hynny. Apeliaf am hynny wrth fynd heibio.

[88] Janet Davies: Yr wyf yn sicr y byddwn yn rhoi sylw teg pan fyddwn yn llunio'r adroddiad terfynol.

Mr Willott: Yr wyf ond yn pryderu oherwydd i'r staff wneud llawer o ymdrech a byddwn yn gobeithio y caiff beth bynnag a wnaethant ei gydnabod yn briodol. Ni ofynnaf fwy na hynny.

[89] Janet Davies: Ni chredaf ein bod yma i fod yn feirniadol heb achos.

Mr Willott: Yn sicr. I droi at eich cwestiwn, mae'n un anferth. Mae'r adroddiad yn ddefnyddiol tu hwnt o ran dangos nad rhaglenni datblygu busnes yn unig yw cymorth i fusnesau. Mae'n ystod llawer ehangach o weithredoedd—o ddarparu eiddo, safleoedd a seilwaith y gall busnesau weithredu ohonynt, i adfywio'r amgylchedd sydd yn darparu lle llawer iachach iddynt weithredu ynddo. O ran a oes gennym y gallu i gyflawni hyn oll, yr hyn a gredaf am yr awdurdod—a dyna pam bod gennych awdurdod—yw y gallwn recriwtio a chadw staff proffesiynol sydd yn meddu ar sgiliau ac sydd yn hyddysg yn y meysydd y maent yn gweithio ynddynt. Felly, lle yr ydym yn gweithredu, credaf ein bod yn gymharol effeithiol yn yr hyn a wnawn.

[90] Janet Davies: Pa effaith a gafodd y cymorth a roesoch i fusnesau cynhenid ar Gymru?

Mr Willott: Yr ydym yn mesur ein hunain yn erbyn y targedau strategol bob blwyddyn a chrisialir y rheini o ran y swyddi a grewyd ac a gefnogwyd, buddsoddiad yn y sector preifat ac amrywiol bethau tebyg. Yr ydym yn mesur ein hunain yn erbyn y targedau hynny ac

in achieving them.

[91] Janet Davies: Mr Shortridge, can you tell me what mechanisms are in place to enable you to gauge how effective the agency is in undertaking its support for indigenous businesses?

Mr Shortridge: Well I suppose there are three actual or potential mechanisms. Mr Cairns and perhaps some of the other members of the Committee will know that the Economic Development Committee has begun a comprehensive review of business development support schemes. That is underway and I think that it will be reporting in the summer or early autumn. So, that is certainly one very important way in which the Assembly at large—and not just us as officials—has an opportunity to assess the effectiveness of the agency. The other thing that I expect to happen is that, within the quinquennial review, this will be an aspect of the agency's business that will be examined to the extent that further review is necessary in the light of the Economic Development Committee's report. In addition, the management statement requires the WDA to evaluate its main programmes. Therefore, on that basis there is the opportunity as well for an evaluation to be undertaken of the support schemes. I think that in the light of the first two initiatives that I have mentioned, I will not in the short term be pressing for a separate evaluation in line with the management statement.

[92] Dafydd Wigley: You will not need the translation facilities for this contribution because I want to quote from a Hansard report of the evidence taken by the Welsh Affairs Select Committee on this very point, namely the extent to which we have the information relating to the capability of indigenous companies to generate jobs. On 14 July 1998, Mr Willott, you told that Committee that

ar y cyfan yr ydym wedi bod yn gyson lwyddiannus o ran eu cyflawni.

[91] Janet Davies: Mr Shortridge, a allwch ddweud wrthyf pa ddulliau sydd ar waith i'ch galluogi i fesur pa mor effeithiol y mae'r awdurdod o ran cynnig cymorth i fusnesau cynhenid?

Mr Shortridge: Wel mae'n debyg bod tri dull gwirioneddol neu bosibl. Bydd Mr Cairns ac o bosibl rhai aelodau eraill o'r Pwyllgor yn gwybod bod y Pwyllgor Datblygu Economaidd wedi dechrau arolwg cynhwysfawr o gynlluniau cymorth datblygu busnesau. Mae hynny ar y gweill a chredaf y bydd yn cyflwyno ei adroddiad yn yr haf neu ddechrau'r hydref. Felly, yn sicr dyna un ffordd bwysig iawn y gall y Cynulliad yn gyffredinol—ac nid dim ond ni fel swyddogion—gael cyfle i asesu effeithiolrwydd yr awdurdod. Y peth arall y disgwyliaf iddo ddigwydd yw, o fewn yr arolwg pum mlynedd, y bydd hyn yn agwedd ar fusnes yr awdurdod a archwiler i'r graddau bod angen arolwg pellach yng ngoleuni adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd. Yn ogystal, mae'r datganiad rheoli yn ei gwneud yn ofynnol i ADC werthuso ei brif raglenni. Felly, ar y sail honno ceir cyfle hefyd i gynnal gwerthusiad o'r cynlluniau cymorth. Credaf yng ngoleuni'r ddwy fenter gyntaf a grybwyllais, na fyddaf yn pwysu am werthusiad ar wahân yn unol â'r datganiad rheoli yn y tymor byr.

[92] Dafydd Wigley: Ni fydd angen y cyfleusterau cyfieithu arnoch ar gyfer y cyfraniad hwn gan fy mod am ddyfynnu o adroddiad Hansard o dystiolaeth a gymerwyd gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar yr union bwynt hwn, sef i ba raddau y mae gennym wybodaeth sydd yn ymwneud â gallu cwmnïau cynhenid i greu swyddi. Ar 14 Gorffennaf 1998, Mr Willott, dywedasoch wrth y Pwyllgor hwnnw bod

'inward investment creates around 8,000 or 9,000 new jobs a year. It ought to be possible to get the same sort of success from indigenous companies. It is very difficult. We do not know enough about job creation by indigenous industry and we need to have quite a bit of research done on that.'

Has the research been undertaken and do we now have an analysis comparing indigenous investment and overseas investment that enables us to have meaningful decisions taken with regard to the development of policy?

A wnaethpwyd yr ymchwil ac a oes gennym bellach ddadansoddiad yn cymharu buddsoddiad cynhenid a buddsoddiad tramor sydd yn ein galluogi i wneud penderfyniadau ystyrlon o ran datblygu polisi?

Mr Willott: The direct answer to your question is that the study that we were envisaging at the time has not taken place. We are still waiting for formal approval and permission to go ahead with it. It is with the survey control unit at the moment and has been for some time and when we have its agreement then we will be able to go ahead with it.

Mr Willott: Yr ateb uniongyrchol i'ch cwestiwn yw na wnaethpwyd yr astudiaeth yr oeddem yn ei rhagweld ar y pryd. Yr ydym yn dal i aros am gymeradwyaeth ffurfiol a chaniatâd i fynd ymlaen â hi. Mae'r cynnig gerbron yr uned rheoli arolygon ar hyn o bryd ac wedi bod ers peth amser a phan gawn gytundeb ganddi byddwn yn gallu mynd ymlaen â hi.

[93] Dafydd Wigley: You say that it has been quite some time. When did the bid go in, how long have you been waiting and when do you expect to have a reply?

[93] Dafydd Wigley: Dywedwch iddi fod gyda hwy ers peth amser. Pryd y cyflwynwyd y cynnig, pa mor hir yr ydych wedi bod yn aros a phryd yr ydych yn disgwyl cael ateb?

Mr Willott: I think that the bid went in some two or three months ago.

Mr Willott: Credaf i'r cynnig gael ei gyflwyno ryw ddau i dri mis yn ôl.

Mr Morgan: Longer than that; it was five months ago.

Mr Morgan: Cyn hynny; yr oedd bum mis yn ôl.

Mr Willott: It was five months ago.

Mr Willott: Yr oedd bum mis yn ôl.

[94] Dafydd Wigley: So the bid went in early in 2000 and you were, clearly, talking about it 18 months before that. What took up the 18 months to get that bid in?

[94] Dafydd Wigley: Felly cyflwynwyd y cynnig yn gynnar yn 2000 ac yr oeddech, yn amlwg, yn sôn amdano 18 mis cyn hynny. Pam y cymerodd 18 mis i gyflwyno'r cynnig hwnnw?

Mr Willott: There were other studies that would have been carried out. There were, if you like, competing ones. There was a lot of discussion with the other people who were proposing to carry out studies that just delayed things. In the end, this is the proposal that we came forward with—to carry out this study—as I say, around the turn of the year.

Mr Willott: Yr oedd astudiaethau eraill a fyddai wedi cael eu cynnal. Yr oedd, os hoffech, rai a oedd yn cystadlu â'i gilydd. Yr oedd llawer o drafod gyda'r bobl eraill a oedd yn bwriadu cynnal astudiaethau a achosodd oedi. Yn y pen draw, dyma'r cynnig a gyflwynwyd gennym—cynnal yr astudiaeth hon—fel y dywedaf, tua diwedd y flwyddyn.

[95] Dafydd Wigley: Would you be surprised if we felt that time has dragged

[95] Dafydd Wigley: A fyddai'n syndod ichi pe baem o'r farn bod amser wedi llusgo ar

on this and if we said that if one is serious about developing the analysis comparing the potential of indigenous companies and the undoubted benefit that comes from overseas investment, that we need the fruits of this work as quickly as possible otherwise we cannot take meaningful decisions?

Mr Willott: I do not think that we are without knowledge because of course there is a deep and widespread knowledge of the small business sector around Wales, both in the agency and in other organisations. Nothing has stood still. However, I entirely agree with your point that we need to get on with this study as quickly as possible and get a sound, thoroughly analytic basis on which to develop policy.

[96] Jane Davidson: Mr Willott, given the range of support provided by the agency and the diversity of indigenous businesses, and referring to your response to the Chair a moment ago that you work to targets, how do you satisfy yourself that your current programmes, schemes and initiatives are properly targeted at the needs of indigenous businesses in Wales?

Mr Willott: In various areas, of course, there are separate, specific studies carried out. The study to which Mr Wigley referred is an all-embracing study of the SME sector in Wales and an attempt to get a clearer analysis of its needs. However, when you come to specific areas like the information society, where we have the Wales Information Society project, and the regional technology plan, where we have had a long standing programme for supporting technology transfer innovation, a lot of those individual programmes are themselves underpinned by specific studies against which the programmes are then formulated, objectives set and so on. What this does not amount to is the all-embracing study, which is what we are talking about.

[97] Jane Davidson: Is that all-embracing study the one referred to in paragraph 21,

hyn a phe dywedwn os ydych o ddifrif ynglyn â datblygu'r dadansoddiad o gymharu potensial cwmnïau cynhenid a'r budd diamheuol a ddaw o fuddsoddiad tramor, bod angen ffrwyth y gwaith hwn arnom cyn gynted â phosibl neu ni allwn wneud penderfyniadau ystyrlon?

Mr Willott: Ni chredaf nad oes gennym wybodaeth oherwydd wrth gwrs mae gwybodaeth ddofn ac eang o'r sector busnesau bach ledled Cymru, gan yr awdurdod a chan sefydliadau eraill. Nid oes unrhyw beth wedi sefyll yn llongydd. Fodd bynnag, cytunaf yn llwyr gyda'ch pwynt bod angen inni fynd ymlaen â'r astudiaeth hon cyn gynted â phosibl a chael sail gadarn sydd yn hollol ddadansoddol er mwyn datblygu polisi arni.

[96] Jane Davidson: Mr Willott, o gofio'r ystod o gymorth a ddarparwyd gan yr awdurdod ac amrywiaeth y busnesau cynhenid, a chan gyfeirio at eich ymateb i'r Cadeirydd funud yn ôl eich bod yn gweithio i dargedau, sut yr ydych yn bodloni eich hun bod eich rhaglenni, cynlluniau a'ch mentrau cyfredol wedi'u targedu'n briodol tuag at anghenion busnesau cynhenid yng Nghymru?

Mr Willott: Mewn amrywiol feysydd, wrth gwrs, cynhelir astudiaethau penodol, ar wahân. Mae'r astudiaeth y cyfeiriodd Mr Wigley ati yn astudiaeth gynhwysfawr o'r sector mentrau bach a chanolig yng Nghymru ac yn ymdrech i gael dadansoddiad cliriach o'i anghenion. Fodd bynnag, pan edrychwch ar feysydd penodol fel y gymdeithas gwybodaeth, lle mae gennym brosiect Cymdeithas Wybodaeth Cymru, a'r cynllun technoleg rhanbarthol, lle mae gennym raglen hirsefydlog ar gyfer cefnogi arloesi trosglwyddo technoleg, mae llawer o'r rhaglenni unigol hynny wedi'u seilio ar astudiaethau penodol eu hunain, a chânt eu defnyddio wedyn i ffurfio'r rhaglenni, pennu amcanion ac ati. Nid yw hyn yn gyfystyr â'r astudiaeth gynhwysfawr, sef yr hyn yr ydym yn sôn amdano.

[97] Jane Davidson: Ai'r astudiaeth gynhwysfawr honno yw'r un y cyfeirir ati

about the needs of the SME sector?

ym mharagraff 21, ynglyn ag anghenion y sector mentrau bach a chanolig?

Mr Willott: Yes.

Mr Willott: Ie.

[98] Jane Davidson: The last sentence of that paragraph says that

[98] Jane Davidson: Dywed brawddeg olaf y paragraff hwnnw

‘The start of this study has been delayed because of extended discussions between the Agency and the Assembly about the aims and the focus of the proposed research.’

What is the substance of those discussions?

Beth yw sylwedd y trafodaethau hynny?

Mr Willott: I am afraid I am not party to them so if you were to have an authoritative response I ought to let you have it in writing.

Mr Willott: Yn anffodus nid wyf yn rhan ohonynt felly os ydych am gael ymateb awdurdodol dylwn adael ichi ei gael yn ysgrifenedig.

Mr Morgan: I would like to come in here. All surveys carried out by the public sector have to go through a survey control unit, which is placed within the Assembly. Really this is because businesses are continually bombarded by surveys. Therefore, there is a control unit, which makes sure that duplication does not occur and that concern is not caused to the businesses that we are there to help and support. That is why we have to go through this agreement with the survey control unit.

Mr Morgan: Hoffwn ddweud gair yma. Mae'n rhaid i bob arolwg a gynhelir gan y sector cyhoeddus fynd drwy uned rheoli arolygon, sydd o fewn y Cynulliad. Mae hyn mewn gwirionedd oherwydd bod busnesau'n cael eu boddi'n barhaus gan arolygon. Felly, mae uned reoli, sydd yn sicrhau nad oes dyblygu yn digwydd ac nad achosir pryder i'r busnesau yr ydym yma i'w helpu a'u cefnogi. Dyna pam fod yn rhaid inni fynd drwy'r cytundeb hwn gyda'r uned rheoli arolygon.

[99] Jane Davidson: What surprised me in this paragraph was that you invited tenders for the study in early 2000. One assumes that you invite tenders on the basis of the substance of what is going to be researched. It then seems slightly surprising to find that the start date was delayed by discussion of the aims and focus of the proposed research.

[99] Jane Davidson: Yr hyn â'm synodd yn y paragraff hwn oedd ichi wahodd tendrau ar gyfer yr astudiaeth yn gynnar yn 2000. Mae rhywun yn tybio eich bod yn gwahodd tendrau ar sail sylwedd yr hyn a fydd yn cael ei ymchwilio. Felly mae'n dipyn o syndod darganfod bod y dyddiad dechrau wedi cael ei ohirio oherwydd trafodaethau ynghylch amcanion a ffocws yr ymchwil arfaethedig.

Mr Morgan: We have to produce for the survey control unit information on the nature of the survey and the content of the survey. To save time we can go out to tender without actually placing contracts, while awaiting approval from the survey control unit. So, when that approval comes we can appoint people straight away.

Mr Morgan: Mae'n rhaid inni gynhyrchu ar gyfer yr uned rheoli arolygon wybodaeth ar natur yr arolwg a chynnwys yr arolwg. I arbed amser gallwn fynd allan i dendr heb ddyfarnu contractau, tra'n aros am gymeradwyaeth gan yr uned rheoli arolygon. Felly, pan ddaw'r gymeradwyaeth gallwn benodi pobl ar unwaith.

[100] Jane Davidson: Mr Shortridge, are we confident that we are going to be able to exercise the role of the control unit quickly enough to make sure that we can get this survey on track since it will provide essential information in terms of SMEs in Wales?

Mr Shortridge: I do not want to mislead the Committee so I will hand this over to Mr Phillips. However, my understanding is that we have now approved it.

Mr Phillips: Yes, that is correct as I understand it. I would like to emphasise the point that Alan Morgan has made. It is very important that business in general, but particularly small businesses, are not over-burdened with a range of questionnaires and surveys to fill in. Not only is it a burden to the businesses concerned but it can often produce surveys that in turn produce inaccurate data and inaccurate conclusions. So we have gone through this process. My understanding is that it has been cleared by the survey control unit and it will be taken forward by the agency.

[101] Jane Davidson: Thank you. Mr Willott, paragraph 7 identifies that following on from the Development Board of Rural Wales, the enterprise functions have stayed in the Mid Wales Division of the agency. How effectively do you see those enterprise functions being exercised there, and would you see it as appropriate that they were exercised throughout all the regional offices of the agency?

Mr Willott: I think that the DBRW and the Mid Wales Division have a very good reputation with businesses in their area. They provide a comprehensive service. This is at the enterprise level rather than the other schemes that the agency runs at the pan-Wales level. I think that it is certainly one route to follow—to provide the agency with the ability to deliver that same sort of service throughout the rest of Wales. However, of course, the needs of each region are different. This is one reason why we have pushed the delivery of services down at the regional level.

[100] Jane Davidson: Mr Shortridge, a ydym yn hyderus y byddwn yn gallu gweithredu rôl yr uned rheoli yn ddigon cyflym i sicrhau y bydd yr arolwg hwn ar y trywydd cywir gan y bydd yn darparu gwybodaeth holl bwysig am fusnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru?

Mr Shortridge: Nid wyf am gamarwain y Pwyllgor felly trosglwyddaf hyn i Mr Phillips. Fodd bynnag, fy nealltwriaeth i yw ein bod bellach wedi ei gymeradwyo.

Mr Phillips: Ydym, mae hynny'n wir yn ôl fy nealltwriaeth i. Hoffwn bwysleisio'r pwynt a wnaeth Alan Morgan. Mae'n bwysig iawn i beidio â gorfwrtho busnesau yn gyffredinol, ond yn arbennig busnesau bach, gydag amrywiaeth o holiaduron ac arolygon i'w cwblhau. Mae hyn nid yn unig yn faich i'r busnesau dan sylw ond yn aml gall gynhyrchu arolygon sydd yn eu tro yn cynhyrchu data anghywir a chasgliadau anghywir. Felly yr ydym wedi mynd drwy'r broses hon. Fy nealltwriaeth i yw ei fod wedi cael ei glirio gan yr uned rheoli arolygon ac y bydd yr awdurdod yn mynd ag ef yn ei flaen.

[101] Jane Davidson: Diolch. Mr Willott, mae paragraff 7 yn nodi i'r swyddogaethau menter aros o fewn Is-adran Canolbarth Cymru o'r awdurdod, yn dilyn Bwrdd Datblygu Cymru Wledig. Pa mor effeithiol y caiff y swyddogaethau menter eu gweithredu yno yn eich barn chi, ac a ydych yn credu y byddai'n briodol eu gweithredu ym mhob un o swyddfeydd rhanbarthol yr awdurdod?

Mr Willott: Credaf fod gan Fwrdd Datblygu Cymru Wledig ac Is-adran Canolbarth Cymru enw da gyda busnesau yn eu hardal. Maent yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr. Mae hyn ar lefel menter yn hytrach na'r cynlluniau eraill y mae'r awdurdod yn eu rhedeg ar lefel Cymru gyfan. Credaf ei fod yn un llwybr i'w ddilyn yn sicr—rhoi'r gallu i'r awdurdod gyflwyno'r un math o wasanaeth ledled gweddill Cymru. Fodd bynnag, wrth gwrs, mae anghenion pob rhanbarth yn wahanol. Dyna un rheswm pam ein bod wedi gwthio cyflwyno

Everything that we do is done in appropriate partnership with local organisations and we might well find that in other parts of Wales, the outcome of the discussions with the local partnerships about delivery are a bit different from those in mid Wales. However, in general terms, we think that we could deliver a good service. That is one reason why we have suggested that for the enterprise part of the training and enterprise councils' function, one option that should be considered by the Assembly should be to transfer that function to the WDA as part of the business support review.

[102] Jane Davidson: I should imagine that in developing your various schemes and initiatives that you look for comparisons, not only in Wales, as we have just been talking about, but in the UK and perhaps wider afield. What have you learned from comparisons with other agencies elsewhere in Britain and Europe?

Mr Willott: We are talking about a very varied field. I think that the conclusions that one would draw differ from area to area. We do benchmark ourselves but not systematically and uniformly across the piece. However, in quite a number of our programmes, for example those for which we have joint European funding—and quite a number of our business support programmes have European funding—then of course an evaluation is carried out and that always tends to include a comparison with other regions in Europe, so we have an automatic benchmarking of quite a lot of our activities. I am glad to say that with things like the Wales Relay Centre and so on we come out very often in the top quartile.

[103] Jane Davidson: If we could focus for a moment on community regeneration, which is in paragraph 11, and directly corresponding in your target geographical area to Objective 1, are there particular lessons that we can learn in terms of community regeneration, which is a fairly

gwasanaethau ar lefel ranbarthol. Caiff popeth a wnawn ei wneud mewn partneriaeth briodol gyda sefydliadau lleol a gallem ddarganfod mewn rhannau eraill o Gymru, bod canlyniad trafodaethau gyda'r partneriaethau lleol ynghlych cyflwyno gwasanaethau ychydig yn wahanol i'r rheini yng nghanolbarth Cymru. Fodd bynnag, yn gyffredinol, credwn y gallem gyflwyno gwasanaeth da. Dyna un rheswm pam ein bod wedi awgrymu mai un opsiwn ar gyfer rhan fenter swyddogaeth y cynghorau hyfforddiant a menter y dylai'r Cynulliad ei ystyried yw trosglwyddo'r swyddogaeth honno i ADC fel rhan o'r arolwg cymorth busnes.

[102] Jane Davidson: Buaswn yn dychmygu wrth ddatblygu eich amrywiol gynlluniau a mentrau eich bod yn edrych am gymariaethau, nid yn unig yng Nghymru, fel yr ydym newydd fod yn trafod, ond yn y DU ac efallai y tu hwnt i hynny. Beth yr ydych wedi'i ddysgu o gymariaethau gydag awdurdodau eraill mewn mannau eraill ym Mhrydain ac Ewrop?

Mr Willott: Yr ydym yn sôn am faes amrywiol iawn. Credaf y byddai'r casgliadau y byddwn yn eu tynnu yn wahanol o'r naill ardal i'r llall. Yr ydym yn meincnodi ein hunain ond nid yn systemataidd ac yn unffurf ar draws yr awdurdod. Fodd bynnag, cynhelir gwerthusiad mewn nifer fawr o'n rhaglenni wrth gwrs, er enghraifft y rhai hynny sydd yn cael eu cyd ariannu o Ewrop—ac mae nifer fawr o'n rhaglenni cymorth busnes yn cael arian o Ewrop—ac mae hynny'n tueddu i gynnwys cymhariaeth gyda rhanbarthau eraill yn Ewrop, felly yr ydym yn meincnodi eithaf tipyn o'n gweithgareddau yn awtomatig. Yr wyf yn falch o ddweud gyda phethau fel y Wales Relay Centre ac ati ein bod yn aml iawn yn y chwarterel uchaf.

[103] Jane Davidson: Os gallwn ganolbwyntio am eiliad ar adfywiad cymunedol, sydd ym mharagraff 11, ac sydd yn cyd-fynd yn union â'ch ardal ddaearyddol darged yn Amcan 1, a oes unrhyw wersi penodol y gallwn eu dysgu o ran adfywiad cymunedol, sydd yn

new priority for the agency, working with participation as well as the traditional business support?

Mr Willott: Yes, I think that, as you say, the emphasis on community regeneration is much greater now than it has been. It depends how you label things, but, for example, the Mid Wales Division ran the market town initiative. That was very much an initiative to support local communities in a variety of ways, ranging from supporting the local post office to supporting a small entrepreneur or whatever. We have drawn on that and are running a pilot scheme in north Wales at the moment—the small towns and villages initiative—with the aim of rolling that kind of model out across Wales. However, it has to be remembered that in the urban regeneration game we have been working with local authorities across the whole of Wales and spending quite a large amount of money. That is all about community regeneration. The regeneration of the centre of Caerphilly for example, and the effect that that has had on the local community around, is quite marked. So there is quite a range of activity. It is not just in small villages and small communities, it can be in quite large communities too.

[104] Jane Davidson: To see community regeneration and participation so high up the strategic policy objectives of the agency is very welcome. I will finish by asking you the more traditional business question, in terms of what are you doing in particular to promote the competitive advantage of indigenous businesses in Wales, which in paragraph 13 is identified as one of your business development objectives?

Mr Willott: I think that one could almost say that almost all our business—the programmes—focus on that because at the end of the day business will not survive unless it is competitive. Wales will not survive unless businesses in Wales are globally competitive. That involves a whole lot of things. It involves, for example, the Source Wales programmes, a simple example which is very well known, where we have a whole suite of programmes that

flaenoriaeth gymharol newydd i'r awdurdod, gan weithio gyda chyfranogiad yn ogystal â chymorth busnes traddodiadol?

Mr Willott: Oes, credaf, fel y dywedwch, fod y pwyslais ar adfywio cymunedau yn llawer mwy yn awr nag y bu. Mae'n dibynnu ar sut yr ydych yn labelu pethau, ond, er enghraifft, Is-adran Canolbarth Cymru oedd yn gyfrifol am y fenter tref marchnad. Yr oedd honno'n fenter er mwyn cefnogi cymunedau lleol mewn amrywiol ffyrdd, yn amrywio o gefnogi'r swyddfa bost leol i gefnogi mentrwr bach neu beth bynnag. Yr ydym wedi tynnu ar hynny ac yn cynnal cynllun peilot yng ngogledd Cymru ar hyn o bryd—y fenter trefi bychan a phentrefi—gyda'r nod o gyflwyno'r math hwnnw o fodel ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'n rhaid cofio yn achos adfywio trefol inni fod yn gweithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru ac yn gwario cryn dipyn o arian. Mae hynny oll yn ymwneud ag adfywiad cymunedol. Mae adfywiad canol Caerffili er enghraifft, a'r effaith a gafodd hynny ar y gymuned leol, yn eithaf nodedig. Felly mae cryn amrywiaeth o weithgaredd. Nid yn unig mewn pentrefi bychain a chymunedau bychain, gall fod mewn cymunedau eithaf mawr hefyd.

[104] Jane Davidson: Mae'n dda iawn gweld bod adfywio a chyfranogiad cymunedol mor uchel o fewn amcanion polisi strategol yr awdurdod. Gorffennaf drwy ofyn y cwestiwn busnes mwy traddodiadol ichi, o ran beth yr ydych yn ei wneud yn benodol i hyrwyddo mantais gystadleuol busnesau cynhenid yng Nghymru, a nodir ym mharagraff 13 fel un o'ch amcanion datblygu busnes?

Mr Willott: Credaf y gall rhywun ddweud bron fod ein holl fusnes—y rhaglenni—yn canolbwyntio ar hynny oherwydd ar ddiwedd y dydd ni fydd busnes yn goroesi oni fydd yn gystadleuol. Ni fydd Cymru yn goroesi oni fydd busnesau yng Nghymru yn gystadleuol yn fyd eang. Mae hynny'n golygu llawer iawn o bethau. Mae'n golygu, er enghraifft, rhaglenni Ffynhonnell Cymru, enghraifft syml sydd yn adnabyddus iawn, lle mae gennym

can be used to help companies to become leaner, higher quality or whatever to meet the needs of large customers in Wales, whether they are inward investors or others. That is one example of clear improvement of quality. Another is the increasing focus on e-business and modern information and communications technology and so on, where clearly companies have to be helped to migrate rapidly to become internet based, e-business based, otherwise they will not exist. So, it is not just a question of competitiveness, it is survival as well.

[105] Janet Davies: I call Alun Cairns to speak.

[106] Alun Cairns: Thank you, Madam Chairman. Mr Willott, I want to talk about the access to finance and the direct finance schemes that are available. They are highlighted in appendix 2 on page 16. I would like to take up in particular, just as an example, the small loan fund, of which an example is highlighted in case study 4 on page 5. Can you tell me, Mr Willott, what the costs are of administering the direct finance schemes, say, just as an example, the small loan fund?

Mr Willott: Could you answer that, Mr Morgan?

Mr Morgan: We cannot give you the exact costs at the moment, because this report was not based on detail, but we can provide that information to you in writing. The small loan fund is managed by a team of two people within the agency, but is part of the bigger agency involvement in Finance Wales. In terms of administration and evaluation it is a team of two. Obviously, the money that is available to place is a contribution from the private sector and the agency. However, the administration is done by just two people.

[107] Alun Cairns: Extending from that, and accepting that you do not have the details to hand, on what basis is an

ystod gyfan o raglenni y gellir eu defnyddio i helpu cymunedau i ddod yn fwy darbodus, o ansawdd uwch neu beth bynnag er mwyn cwrdd ag anghenion cwsmeriaid mawr yng Nghymru, pa un ai a ydynt yn fewnfuddsoddwyr neu eraill. Dyna un enghraifft o welliant amlwg mewn ansawdd. Un arall yw ffocws cynyddol ar e-fusnes a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu fodern ac ati, lle yn amlwg y mae'n rhaid i gwmnïau gael help i fudo yn gyflym i fod yn seiliedig ar y rhynggrwyd, yn e-fusnes, neu fel arall byddant yn peidio â bodoli. Felly, nid mater o fod yn gystadleuol yn unig ydyw, mae'n fater o oroesi hefyd.

[105] Janet Davies: Galwaf ar Alun Cairns i siarad.

[106] Alun Cairns: Diolch, Fadam Cadeirydd. Mr Willott, yr wyf am sôn am rwydd hynnt i gyllid a'r cynlluniau ariannu uniongyrchol sydd ar gael. Cânt eu hamlygu yn atodiad 2 ar dudalen 16. Hoffwn holi yn benodol, dim ond fel enghraifft, ynglyn â'r gronfa benthyciadau bach, ac amlygir enghraifft yn astudiaeth achos 4 ar dudalen 5. A allwch ddweud wrthyf, Mr Willott, faint yw costau gweinyddu'r cynlluniau ariannu uniongyrchol, dyweder, dim ond fel enghraifft, y gronfa benthyciadau bach?

Mr Willott: A allech ateb hynny, Mr Morgan?

Mr Morgan: Ni allwn roi'r union gostau ichi ar hyn o bryd, gan nad yw'r adroddiad hwn yn seiliedig ar fanylion, ond gallwn ddarparu'r wybodaeth honno ichi yn ysgrifenedig. Caiff y gronfa benthyciadau bach ei rheoli gan dîm o ddau o bobl o fewn yr awdurdod, ond mae'n rhan o gysylltiad mwy yr awdurdod gyda Finance Wales. O ran gweinyddu a gwerthuso mae'n dîm o ddau. Yn amlwg, mae'r arian sydd ar gael i'w roi yn gyfraniad o'r sector preifat a'r awdurdod. Fodd bynnag, dim ond gan ddau berson y gwneir y gwaith gweinyddol.

[107] Alun Cairns: Yn deillio o hynny, a chan dderbyn nad yw'r manylion wrth law gennyf, ar ba sail y caiff cais am

application for a loan sanctioned, assuming that the applicant will have been turned down in the private sector before approaching the agency for such a loan?

Mr Morgan: The loan application is received within the agency usually at a regional level, at one of our regional offices. The staff there will do an initial evaluation of that application—does it have a business plan—and some background information is provided on the applicant based on local knowledge. That then comes into the centre where the professional member of staff carries out due diligence on the requirements of that loan—what financial support is being provided by the applicant itself, what other finance is available through other avenues, the bank, and so on—and a decision is made. That decision then comes forward to me for approval, depending on the size of the loan. If it is above my delegation, it then obviously goes on to the chief executive.

[108] Alun Cairns: Is it fair to say that the agency will accept a loan that is potentially of higher risk than that the public sector—sorry, the private sector—might accept?

Mr Willott: I think, if I can sort of answer what you are getting at—

[109] Alun Cairns: Have you got my questions yet? [*Laughter.*]

Mr Willott: Perhaps I will answer the next five questions in a row. Obviously it is not our role to replace the private sector. The private sector is fundamental to everything that the agency does. Why are there gaps or defects in the provision of finance by the private sector? They tend to be where loan or equity is too small to justify the cost of processing and so on. I think that is what your first question was after. Also, how can it be justified that we should do this.

On your second question, in the case of loans, there are companies, for example, that may be starting up or something like that, which may have reasonable prospects

fenthyciad sêl bendith, gan dybio y bydd yr ymgeisydd wedi cael ei wrthod yn y sector preifat cyn gwneud cais i'r awdurdod am fenthyciad o'r fath?

Mr Morgan: Caiff y cais am fenthyciad ei dderbyn o fewn yr awdurdod, fel arfer ar lefel ranbarthol, mewn un o'n swyddfeydd rhanbarthol. Bydd y staff yno yn cynnal gwerthusiad cychwynnol o'r cais hwnnw—a oes ganddo gynllun busnes—a darperir rhywfaint o wybodaeth gefndirol ar yr ymgeisydd yn seiliedig ar wybodaeth leol. Yna daw hwnnw i mewn i'r ganolfan lle mae'r aelod o staff proffesiynol yn rhoi sylw dyledus i ofynion y benthyciad hwnnw—pa gymorth ariannol a ddarperir gan yr ymgeisydd ei hun, pa gyllid arall sydd ar gael o ffynonellau eraill, y banc, ac ati—a gwneir penderfyniad. Yna daw'r penderfyniad hwnnw ataf i i'w gymeradwyo, gan ddibynnu ar faint y benthyciad. Os yw y tu hwnt i'm cyfrifoldeb, yn amlwg caiff ei drosglwyddo i'r prif weithredwr.

[108] Alun Cairns: A yw'n deg i ddweud y bydd yr awdurdod yn derbyn benthyciad â risg uwch nag y byddai'r sector cyhoeddus—mae'n ddrwg gennyf, y sector preifat—yn ei dderbyn?

Mr Willott: Credaf, os gallaf roi rhyw fath o ateb i'r hyn yr ydych yn ceisio ei ofyn—

[109] Alun Cairns: A ydych wedi cael fy nghwestiynau eto? [*Chwerthin.*]

Mr Willott: Efallai y byddaf yn ateb y pum cwestiwn nesaf yn olynol. Yn amlwg nid ein rôl yw disodli'r sector preifat. Mae'r sector preifat yn sylfaenol i bopeth a wna'r awdurdod. Pam bod bylchau neu namau yn y ddarpariaeth o gyllid gan y sector preifat? Maent yn tueddu i ymddangos lle mae bethyciad neu ecwiti yn rhy fach i gyfiawnhau cost prosesu ac ati. Credaf mai dyna'r hyn a ofynnwyd yn eich cwestiwn cyntaf. Hefyd, sut y gellir cyfiawnhau y dylem wneud hyn.

O ran eich ail gwestiwn, yn achos benthyciadau, mae cwmnïau, er enghraifft, a allai fod yn cael eu sefydlu neu rywbeth tebyg, a allai feddu ar ragolygon rhesymol

for profitability but have no security if they are, say, a computer software company or something like that and they are starting up. They do not have any assets and they may not own a house, even. These are the sort of cases where you can see that there is a scope for the public sector to obviously take what is a risk—not necessarily a greater risk than the private sector would in terms of profitability, but there would be no security—and to carry some of the costs of the processing and monitoring of it, which you would justify as being in the public interest because you are actually adding to the economy of Wales.

[110] Alun Cairns: So is it fair to say that the level of expertise in the agency is higher than that in the private sector?

Mr Willott: No, it is addressing different targets. However, the expertise that we do have, particularly on the new funds, is good. We have good people and they are hard nosed.

[111] Alun Cairns: I will not pursue it too far. I have two further small questions. What record of losses is there in relation to the direct finance schemes?

Mr Morgan: At this moment in time, because these are new schemes, fortunately it is zero. If you are talking about historically, the agency had its own scheme. It was a risk and there was a high percentage of loss. However, at the moment we have only placed somewhere in the region of 16 loans through these new schemes because, as I say, these are new schemes.

[112] Alun Cairns: It is fair to say that it is your intention to compare the record of loss, when it will be available, with that in the private sector?

Mr Willott: Yes, absolutely.

[113] Janet Davies: I will just take a moment to point out—to the Committee, rather than to the witnesses—that I am

o ran elwgarwch ond heb ddiogelwch os ydynt, dyweder, yn gwmni meddalwedd cyfrifiaduron neu rywbeth tebyg i hynny a'u bod yn cychwyn. Nid oes ganddynt unrhyw asedau ac efallai nad ydynt yn berchen ar dy, hyd yn oed. Dyna'r math o achosion lle y gallwch weld bod cyfle i'r sector cyhoeddus gymryd yr hyn sydd yn amlwg yn risg—nid risg fwy nag y byddai'r sector preifat yn ei chymryd o ran elwgarwch o anghenraid, ond ni fyddai unrhyw ddiogelwch—ac ysgwyddo peth o'r costau prosesu a monitro, y byddech yn ei gyfiawnhau fel rhywbeth a fyddai o fudd i'r cyhoedd am eich bod yn ychwanegu at economi Cymru.

[110] Alun Cairns: Felly a yw'n deg dweud bod lefel yr arbenigedd yn yr awdurdod yn uwch nag yn y sector preifat?

Mr Willott: Nac ydy, mae'n rhoi sylw i dargedau gwahanol. Fodd bynnag, mae'r arbenigedd sydd gennym, yn arbennig ar gronfeydd newydd, yn dda. Mae gennym bobl dda ac maent yn ddigyfaddawd.

[111] Alun Cairns: Nid âf ar ôl hynny'n rhy bell. Mae gennyf ddau gwestiwn bach arall. Pa gofnod o golledion sydd ar gael ynglyn â'r cynlluniau ariannu uniongyrchol?

Mr Morgan: Ar hyn o bryd, gan fod y rhain yn gynlluniau newydd, yn ffodus nid oes colledion. Os ydych yn sôn am y sefyllfa yn hanesyddol, yr oedd gan yr awdurdod ei gynllun ei hun. Yr oedd risg ac yr oedd canran uchel o golled. Fodd bynnag, ar hyn o bryd dim ond tua 16 o fenthyciadau yr ydym wedi eu rhoi drwy'r cynlluniau newydd hyn oherwydd, fel y dywedaf, mae'r rhain yn gynlluniau newydd.

[112] Alun Cairns: Mae'n deg dweud mai eich bwriad yw cymharu'r cofnod o golledion, pan fydd ar gael, gyda chofnod y sector preifat?

Mr Willott: Ie, yn hollol.

[113] Janet Davies: Hoffwn gymryd ennyd i nodi—i'r Pywllgor yn hytrach na'r tystion—fy mod yn eithaf hapus cael fy

quite happy to be addressed as 'Chair' rather than 'Madam Chairman'. It, very cost-effectively, saves on three syllables.

I call Geraint Davies to speak.

[114] Geraint Davies: Thank you, Chair. I refer to paragraph 12 on business development. It states that you expected to spend £23 million last year, half of which will be spent in rural areas. I congratulate the rural areas for getting half of that. However, it seems to me that perhaps the Valley areas are not getting their fair share. I would like to ask how much you are spending in the Valley areas and to stress the importance of retaining businesses in the Valleys. It is important to attract people in, but I have had experience lately of successful businesses in the Valleys relocating elsewhere.

My feeling is that the agency has not had communications with these businesses over a long period of time to see how they are going. Perhaps the agency could have accommodated them with a factory in the Valleys over a period of time, but in a short period of time it cannot do so. There is one business that is going to relocate on the M4 corridor, another is thinking of expanding in Essex. I think that it is very important that you have very close communication with companies within the Valleys because retaining them is so important.

Mr Willott: I hope that we do and I hope that we provide a service that matches all the needs of businesses. It is up to the Assembly to decide what the relative priorities of our activities should be. We would get a different question from somebody with a rural interest, who would say 'you are not spending enough on rural areas'.

[115] Geraint Davies: Are we spending a fair share?

Mr Willott: I think so. I believe so.

nghyfarch fel 'Cadeirydd' yn hytrach na 'Madam Cadeirydd'. Mae'n gost effeithiol iawn ac yn arbed dau sill.

Galwaf ar Geraint Davies i siarad.

[114] Geraint Davies: Diolch, Gadeirydd. Cyfeiriai at baragraff 12 ar ddatblygu busnes. Mae'n nodi eich bod yn disgwyl gwario £23 miliwn y llynedd, a hanner hynny mewn ardaloedd gwledig. Hoffwn longyfarch yr ardaloedd gwledig am gael hanner y swm hwnnw. Fodd bynnag, ymddengys i mi nad yw ardaloedd y Cymoedd o bosibl yn cael cyfran deg. Hoffwn ofyn faint yr ydych yn ei wario o fewn ardaloedd y Cymoedd gan bwysleisio pwysigrwydd cadw busnesau yn y Cymoedd. Mae'n bwysig denu pobl i mewn, ond yr wyf wedi cael y profiad yn ddiweddar o weld busnesau llwyddiannus yn y Cymoedd yn adleoli i ardaloedd eraill.

Yr wyf yn teimlo nad yw'r awdurdod wedi cyfathrebu gyda'r busnesau hyn dros gyfnod maith i weld sut y mae pethau'n mynd. Efallai y gallai'r awdurdod fod wedi darparu ffatri ar eu cyfer yn y Cymoedd dros gyfnod o amser, ond mewn cyfnod byr o amser ni all wneud hynny. Mae un busnes yn bwriadu adleoli ar goridor yr M4, mae un arall yn ystyried ehangu yn Essex. Yr wyf o'r farn ei bod yn bwysig iawn fod gennyh gysylltiadau agos iawn â chwmnïau yn y Cymoedd gan fod eu cadw mor bwysig.

Mr Willott: Gobeithio y gwnawn hynny a gobeithio ein bod yn darparu gwasanaeth sydd yn cyfateb â holl anghenion busnesau. Y Cynulliad sydd i benderfynu beth ddylai blaenoriaethau ein gweithgareddau fod. Byddem yn cael cwestiwn gwahanol gan rywun â diddordeb gwledig, a fyddai'n dweud 'nid ydych yn gwario digon ar ardaloedd gwledig'.

[115] Geraint Davies: A ydym yn gwario cyfran deg?

Mr Willott: Yr wyf yn credu hynny. Ydwyf.

Mr Morgan: If I could make a point here, you referred to £23 million. We also have a very professional team of individuals who provide advice to companies. That is quite often forgotten in these exercises. The value of that direct support one-to-one does not impinge on the £23 million, which is all for projects and the cost of providing services for projects.

[116] Geraint Davies: To go on to another subject, in appendix 2 on page 18, information technology is mentioned. I understand that the number of firms in Wales that are IT literate, or use IT as they should, is very small when compared to other areas in England, London in particular. What plans do you have to improve that situation because that is a vital to the development of business in our country?

Mr Willott: Absolutely. You are right. I am afraid that such surveys as have been, indicate that Welsh businesses are behind those of other regions in the use of IT. The Wales Information Society programme has a broad series of activities designed to address that and to provide awareness, support and consultancy advice. We launched a new initiative two weeks ago—Andrew Davies was there and launched it for us—called sme-Business. It is designed to, over the next two years, roll out awareness of information and communications technology, the internet and e-business to 10,000 small and medium sized enterprises and to provide hands-on consultancy advice, of up to 8 or 9 days on average, to 1,500 of them. So that is the sort of practical action that we are taking to try to help companies to accelerate their process of adoption of IT.

[117] Geraint Davies: I have one last question. With the advent of Objective 1, there is the possibility of using operating aids to develop businesses—lower taxes, possibly, and lower insurance contributions. How do you feel that they could stimulate the Welsh economy,

Mr Morgan: Os gallaf wneud pwynt yma, fe wnaethoch gyfeirio at £23 miliwn. Mae gennym hefyd dîm proffesiynol iawn o unigolion sydd yn darparu cyngor i gwmnïau. Caiff hynny ei anghofio'n aml yn yr ymarferion hyn. Nid yw gwerth y cymorth uniongyrchol hwnnw un-i-un yn amharu ar y £23 miliwn, sydd i gyd ar gyfer prosiectau a'r gost o ddarparu gwasanaethau ar gyfer prosiectau.

[116] Geraint Davies: I fynd ymlaen at bwnc arall, yn atodiad 2 ar dudalen 18, crybwyllir technoleg gwybodaeth. Deallaf fod nifer y cwmnïau yng Nghymru sydd yn llythrennog o ran TG, neu'n defnyddio TG fel y dylent, yn fach iawn o'u cymharu ag ardaloedd eraill yn Lloegr, Llundain yn arbennig. Pa gynlluniau sydd gennych i wella'r sefyllfa honno gan fod hynny'n hanfodol i ddatblygu busnes yn ein gwlad?

Mr Willott: Yn hollol. Yr ydych yn gywir. Yn anffodus mae'r arolygon hynny a gynhaliwyd wedi dangos bod busnesau yng Nghymru ar ei hôl hi gyda'r defnydd o TG o'u cymharu â rhanbarthau eraill. Mae gan raglen Cymdeithas Gwybodaeth Cymru gyfres eang o weithgareddau wedi eu cynllunio i fynd i roi sylw i hynny a darparu ymwybyddiaeth, cymorth a chyngor ymgynghori. Lansiodd menter newydd gennym bythefnos yn ôl—yr oedd Andrew Davies yno i'w lansio ar ein rhan—o'r enw sme-Business. Ei nod, dros y ddwy flynedd nesaf, yw cyflwyno ymwybyddiaeth o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, y rhyngwyd ac e-fusnes i 10,000 o fusnesau bach a chanolig eu maint a darparu cyngor ymyngghori ymarferol, o hyd at 8 neu 9 diwrnod ar gyfartaledd, i 1,500 ohonynt. Felly dyna'r math o gamau ymarferol yr ydym yn eu cymryd i geisio helpu cwmnïau i gyflymu eu proses o fabwysiadu TG.

[117] Geraint Davies: Mae gennyf un cwestiwn terfynol. Gyda dyfodiad Amcan 1, ceir posibilrwydd o ddefnyddio cymhorthion gweithredu i ddatblygu busnesau—trethi is, o bosibl, a chyfraniadau yswiriant is. Sut y gallent ysgogi'r economi Gymreig yn eich barn

particularly that of the Valleys?

Mr Willott: That is a question I would rather be addressed to Jon Shortridge, whose ambit is broader than mine in this respect.

Mr Shortridge: I cannot give you an informed answer to that. Clearly, operating aids are perceived as very important and we are pursuing the scope for applying those within the Objective 1 area as part of the present discussions.

Mr Phillips: As Jon has said, and as Mr Cairns will know, a series of papers have gone to the Economic Development Committee on this subject. We are looking at various potential operating aids from the micro level of the sort of help that we could give to business start-ups to the macro level in terms of the tax regime and similar issues. We have had a series of discussions with partners in Wales but we are also in touch with the Treasury and others because a great many of the powers that lie behind these issues are non-devolved. We are looking at this as a matter of urgency and I think that we are due to report back to the Economic Development Committee in another month or so.

[118] Alison Halford: To my shame, in the year that I have been an Assembly Member, I have been struggling to establish what is available for small businesses. I have had some difficulty understanding what Business Connect and other such organisations do and, as it happens, I have a constituency office in the middle of a Flintshire enterprise agency. You mentioned yourself the small towns and villages initiative, which by pure chance, I had heard about from Chris Farrow. You have now just mentioned the launch of sme-Business. This is an excellent document, and I wish that I had had longer to study it. However, are you giving enough simple information to the small people upon whom we rely to set up small businesses?

Mr Willott: I will pass this over to Alan

chi, yn arbennig economi'r Cymoedd?

Mr Willott: Byddai'n well gennyf pe bai'r cwestiwn hwnnw yn cael ei ofyn i Jon Shortridge, gan fod ei gylch gorchwyl yn ehangach na'm cylch gorchwyl i yn hyn o beth.

Mr Shortridge: Ni allaf roi ateb hyddysg ichi i hynny. Yn amlwg, ystyrir bod cymhorthion gweithredu yn bwysig iawn ac yr ydym yn mynd ar drywydd y cyfle i gymhwyso'r rheini o fewn ardal Amcan 1 fel rhan o'r trafodaethau presennol.

Mr Phillips: Fel y dywedodd Jon, ac fel y gwyr Mr Cairns, anfonwyd cyfres o bapurau at y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar y pwnc hwn. Yr ydym yn edrych ar amrywiol gymhorthion gweithredu posibl o lefel micro y math o help y gallem ei roi i fusnesau newydd i lefel macro yn nhermau'r gyfundrefn dreth a materion tebyg. Yr ydym wedi cael cyfres o drafodaethau gyda phartneriaid yng Nghymru ond yr ydym hefyd mewn cysylltiad â'r Trysorlys ac eraill gan fod nifer fawr o'r pwerau sydd y tu ôl i'r materion hyn yn rhai sydd heb eu datganoli. Yr ydym yn edrych ar hyn fel mater o frys a chredaf y byddwn yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ymhen rhyw fis.

[118] Alison Halford: Er mawr gywilydd i mi, yn ystod y flwyddyn y bûm yn Aelod Cynulliad, yr wyf wedi ei chael hi'n anodd i gael gwybod beth sydd ar gael i fusnesau bach. Cefais beth anhawster i ddeall yr hyn y mae Cyswllt Busnes a sefydliadau eraill tebyg yn ei wneud ac, fel mae'n digwydd, mae gennyf swyddfa etholaeth yng nghanol un o asiantaethau menter Sir y Fflint. Soniasoch eich hun am y fenter trefi bach a phentrefi, y clywais amdani, ar hap, gan Chris Farrow. Yr ydych yn awr newydd sôn am lansio sme-Business. Mae hon yn ddogfen wych, ac mae'n ddrwg gennyf na chefais fwy o amser i'w hastudio. Fodd bynnag, a ydych yn rhoi digon o wybodaeth syml i'r bobl fach yr ydym yn dibynnu arnynt i sefydlu busnesau bach?

Mr Willott: Trosglwyddaf hyn i Alan

Morgan in a moment, but the answer is that is an area—and I must say that it is quite a confused—

[119] Alison Halford: It is not just me, then. Thank goodness for that.

Mr Willott: No. The key focus, from our perspective, of the delivery of services to small firms, is Business Connect. It should be the starting point for them. However, it depends upon what kind of service they require. We, in the agency, operate quite a large number of different schemes to meet different needs. To keep them efficient, they are very clearly focused. However, that of course presents a marketing problem and a problem of comprehension on the part of the small firm. We are trying to make it much simpler for them. Small firms have problems; problems of finance, of technology, marketing, production and so on. We are simply trying to go to them and say, 'what is the problem?' and then we have a solution. Never mind which of the different schemes that is; that is irrelevant. We simply need to understand the problems and then we can say 'here is the solution'. Do you want to add anything, Alan?

Mr Morgan: You raise a very good point. What is really missing in Wales at this time is a simplistic approach to this. The agency itself fell foul of marketing its programmes in a proactive way. Really, business people want two things: first, basic information and secondly, impartial advice, that you then identify the needs of that company. Usually, having met with a professional counsellor, the company's needs quite often change. The normal request is for money, but by the time you have met with the company and spent maybe two days in discussion with them, its needs change. Then the company needs you to be able to signpost it to the professional support available through the public or the private sector. That is what we refer to as the toolbox. Having identified the needs, you can then delve into your toolbox to pick out some of the programmes that the chief executive

Morgan mewn munud, ond yr ateb yw bod hwnnw'n faes—ac mae'n rhaid i mi ddweud ei fod yn faes eithaf dryslyd—

[119] Alison Halford: Felly nid dim ond fi sydd yn credu hynny. Diolch byth am hynny.

Mr Willott: Na. Y prif ffocws, o'n presbectif ni, o gyflwyno gwasnaethau i fusnesau bach, yw Cyswllt Busnes. Dylai fod yn fan cychwyn iddynt. Fodd bynnag, mae'n dibynnu pa fath o wasanaeth sydd ei angen arnynt. Yr ydym ni, yn yr awdurdod, yn gweithredu nifer cymharol fawr o wahanol gynlluniau i gwrdd â gwahanol anghenion. Er mwyn eu cadw'n effeithlon, mae ffocws clir iawn iddynt. Fodd bynnag, mae hynny wrth gwrs yn cyflwyno problem farchnata a phroblem o ran dealltwriaeth ar ran y cwmni bach. Yr ydym yn ceisio ei gwneud yn llawer haws iddynt. Mae gan gwmnïau bach broblemau; problemau cyllid, technoleg, marchnata, cynhyrchu ac ati. Yr ydym yn ceisio mynd atynt i ddweud, 'beth yw'r broblem?' ac yna mae gennym ateb. Nid oes ots pa un o'r amrywiol gynlluniau yw hwnnw; mae hynny'n amherthnasol. Mae angen inni ddeall y problemau ac yna gallwn ddweud 'dyma'r ateb'. A ydych am ychwanegu unrhyw beth, Alan?

Mr Morgan: Yr ydych yn codi pwynt da iawn. Yr hyn sydd ar goll yng Nghymru ar hyn o bryd yw ymagwedd syml tuag at hyn. Ni lwyddodd yr awdurdod ei hun i farchnata ei raglenni mewn ffordd broactif. Mewn gwirionedd, mae pobl fusnes yn gofyn am ddau beth: yn gyntaf, gwybodaeth sylfaenol ac yn ail, gwybodaeth ddi-duedd, ac wedyn yr ydych yn nodi anghenion y cwmni hwnnw. Fel arfer, yn dilyn cyfarfod gydag ymgynghorydd proffesiynol, mae anghenion y cwmni yn aml yn newid. Cais am arian yw'r cais arferol, ond erbyn ichi gyfarfod â'r cwmni a threulio deuddydd efallai yn trafod gyda hwy, mae ei anghenion yn newid. Yna mae'r cwmni am ichi allu dangos y ffordd iddo tuag at y cymorth proffesiynol sydd ar gael drwy'r sector cyhoeddus neu preifat. Cyfeiriwn at hyn fel y pecyn offer. Ar ôl nodi'r anghenion, gallwch chwilota yn eich pecyn

referred to under Source Wales. There are five, six, 10, 11, 12 different programmes and a combination of those might meet its needs. I hope that the business review being undertaken by the Assembly will go a long way to perhaps rationalising this. England has suffered through its Business Links initiative, which has gone off the rails. Scotland is already having difficulties with its relationships with local enterprise companies. Hopefully we can learn from that.

[120] Alison Halford: So, to put it in language that I can understand, you are obviously providing a Rolls Royce service in schemes and what is available, but the Mini driver on the ground is not able to access your Rolls Royce service because he or she does not have the skills or the time or the understanding of your vast range of products. Therefore, there is a huge information gap. Is that fair?

Mr Morgan: No, that is not fair. Business Connect is there to bridge that gap. Business Connect works very successfully at the local level and all the various players in economic development in Wales are members of Business Connect. That is the information point. The area in which there is an issue is the provision of personal business advisers. That needs to be rationalised and co-ordinated.

[121] Alison Halford: Is this being scooped up by The Prince's Trust?

Mr Morgan: That is just one element and one of many players. In one region alone there are 33 players in business advice and business support.

Mr Willott: I would like to add one point that may be helpful, which is to bear in mind the way in which the agency has developed over the last six or seven years. We had the enterprise function, that is, the support for small enterprises, removed and transferred to the TECs back in the

offer i ddewis rhai o'r rhaglenni y cyfeiriodd y prif weithredwr atynt o dan Ffynhonnell Cymru. Ceir pump, chwech, 10, 11, 12 o wahanol raglenni a gallai cyfuniad o'r rheini gwrdd â'i anghenion. Gobeithio y bydd yr arolwg busnes a gynhelir gan y Cynulliad yn mynd ran bell o'r ffordd tuag at resymoli hyn. Mae Lloegr wedi dioddef o dan ei menter Business Links, sydd wedi mynd ar gyfeiliorn. Mae'r Alban eisoes yn cael anawsterau gyda'i pherthynas â chwmnïau menter lleol. Gobeithio y gallwn ddysgu o hynny.

[120] Alison Halford: Felly, i'w roi mewn iaith y gallaf ei deall, yr ydych yn amlwg yn darparu gwasanaeth Rolls Royce mewn cynlluniau a'r hyn sydd ar gael, ond ni all y gyrrwr Mini fanteisio ar eich gwasanaeth Rolls Royce gan nad oes ganddo neu ganddi'r sgiliau na'r amser na'r ddealltwriaeth o'ch ystod eang o gynnyrch. Felly, mae bwch enfawr o ran gwybodaeth. A yw hynny'n deg?

Mr Morgan: Nac ydy, nid yw hynny'n deg. Mae Cyswllt Busnes yno i bontio'r bwch hwnnw. Mae Cyswllt Busnes yn gweithio'n llwyddiannus iawn ar lefel leol ac mae pob un o'r amrywiol gyfranogwyr o fewn datblygiad economaidd yng Nghymru yn aelodau o Cyswllt Busnes. Dyna'r pwynt gwybodaeth. Y maes dadleuol yw darparu ymgynghorwyr busnes personol. Mae angen rhesymoli hwnnw a'i gydlynu.

[121] Alison Halford: A yw Ymddiriedolaeth y Tywysog yn manteisio ar hyn?

Mr Morgan: Un elfen yn unig yw hynny ac mae'n un o nifer o gyfranogwyr. Mewn un rhanbarth yn unig mae 33 o gyfranogwyr ym maes cyngor busnes a chymorth busnes.

Mr Willott: Hoffwn ychwanegu un pwynt a allai fod yn ddefnyddiol, sef i gadw mewn cof y ffordd y mae'r awdurdod wedi datblygu dros y chwe neu'r saith blynedd ddiwethaf. Tynnwyd y swyddogaeth menter oddi wrthym, sef y cymorth ar gyfer mentrau bach, ac fe'i

early 1990s and so our support for business, leaving aside the provision of premises and such fundamentals, has been focused on generic things. Those tended to be for the middle-sized firms rather than the 'S', for small, in SME so, it was technology transfer from universities, it was ICT and so on. They were on a pan-Wales basis. What we are moving to, with this sort of change in climate, is trying to get everybody together so that the 'S', the small firms, are most effectively supported. We, and others, are moving to that. It is important that this review should address this.

[122] Alison Halford: That is obviously being addressed and you are working on that.

Mr Willott: I hope so, yes.

[123] Brian Gibbons: I was pleased to receive this document. I apologise that my questions are rather disjointed. It is because of the traffic lights at junction 33 this morning, or lack of them, more accurately. The thesis that I am following is that in Wales we have been outstandingly successful in encouraging inward investment and that we are outperforming anywhere else in the United Kingdom. Equally we are underperforming compared with probably every other part of the United Kingdom in the development of indigenous industry. I read this document to see whether I could get a feel for a recognition that this problem actually existed. I have to say that I did not get the feeling that there was a single response for the over-performing areas and the areas where we, as a region, were doing particularly badly. Would you like to respond to that? You may not even agree with me.

Mr Willott: I am not sure. We are not the authors of the report. I think that perhaps it did not cover some of the things that are happening here and now such as the entrepreneurship action plan, which has

trosglwyddwyd i'r cynghorau hyfforddiant a menter ar ddechrau'r 1990au ac felly mae ein cymorth ar gyfer busnesau, gan anwybyddu'r ddarpariaeth eiddo a phethau sylfaenol tebyg, wedi canolbwyntio ar bethau generig. Yr oedd hynny'n dueddol o fod ar gyfer cwmnïau canolig eu maint yn hytrach na'r rhai bach felly, yr oedd yn drosglwyddiad technoleg o brifysgolion, yn TGCh ac ati. Yr oedd y rhain ar sail Cymru gyfan. Yr hyn yr ydym yn symud tuag ato, gyda'r math hwn o newid mewn hinsawdd, yw ceisio cael pawb ynghyd fel mai'r busnesau bach yw'r rhai a gefnogir yn fwyaf effeithiol. Yr ydym ni, ac eraill, yn symud tuag at hynny. Mae'n bwysig i'r arolwg hwn roi sylw i hyn.

[122] Alison Halford: Yr ydych yn amlwg yn rhoi sylw i hynny ac yn gweithio arno.

Mr Willott: Ydym, gobeithio.

[123] Brian Gibbons: Yr oedd yn bleser gennyf dderbyn y ddogfen hon. Ymddiheuraf fod fy nghwestiynau yn eithaf tameidiog. Mae hyn oherwydd y goleuadau traffig ger cyffordd 33 y bore yma, neu ddiffyg goleuadau traffig, yn hytrach. Y thesis yr wyf yn ei ddilyn yw inni fod yn hynod lwyddiannus yng Nghymru o ran annog mewnfuddsoddiad a'n bod yn perfformio'n well nag unrhyw le arall yn y Deyrnas Unedig. Yn yr un modd yr ydym yn tanberfformio o gymharu â phob rhan arall o'r Deyrnas Unedig o ran datblygu diwydiant cynhenid. Darllenais y ddogfen hon er mwyn gweld a allwn gael ymdeimlad o'r gydnabyddiaeth fod y broblem hon yn bodoli mewn gwirionedd. Mae'n rhaid imi ddweud na chefais y teimlad bod un ymateb ar gyfer yr ardaloedd sydd yn perfformio'n well a'r ardaloedd lle yr oeddem, fel rhanbarth, yn gwneud yn arbennig o wael. A hoffech ymateb i hynny? Efallai na fyddwch yn cytuno â mi hyd yn oed.

Mr Willott: Nid wyf yn siwr. Nid ni yw awduron yr adroddiad. Credaf nad yw o bosibl yn cwmpasu rhai o'r pethau sydd yn digwydd yma ar hyn o bryd fel y cynllun gweithredu mentergarwch, sydd

just been presented to the Assembly and is being launched. What you see from that is that you have to provide both specific support for would-be entrepreneurs but that you must also work long-term at changing culture. We must start with enterprise in schools, the universities and so on as though there is a short-term and a medium long-term. Only when we have the culture change that supports entrepreneurship will we begin to be in the top league of regions as far as indigenous business is concerned.

